Rhif ymchwil cymdeithasol: 49/2025

Dyddiad cyhoeddi: 04/06/2025

# Dulliau rhianta a chosbi corfforol newidiaudau dros amser a'r cysylltiadau gyda chanlyniadau datblygiad plant, 2012 a 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-83715-851-5

**Dulliau rhianta a chosbi corfforol: newidiadau dros amser a'r cysylltiadau gyda chanlyniadau datblygiad plant, 2012 a 2022**

Awduron: Matthew Scott, Hannah Davies

Adroddiad Ymchwil Llawn: Scott, M. And Davies, H. (2025). Dulliau Rhianta a Chosbi Corfforol: Newidiadau Dros Amser a'r Cysylltiadau gyda Chanlyniadau Datblygiad Plant, 2012 a 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR Rhif 49/2025.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dulliau-rhianta-a-chosbi-corfforol-newidiadau-dros-amser-ar-cysylltiadau-gyda-chanlyniadau-datblygiad-plant-2012-a-2022

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Enw: Hannah Davies

Is-Adran: Yr Is-adran Tystiolaeth a Chefnogaeth ar gyfer Cydraddoldeb, Tlodi a Phlant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys

Dulliau rhianta a chosbi corfforol newidiaudau dros amser a’r cysylltiadau gyda chanlyniadau datblygiad plant, 2012 a 2022 ....1
Rhestr o'r tablau ....2
Rhestr o'r ffigurau ....3
Rhestr termau ....5
1. Crynodeb gweithredol ....7
2. Cyflwyniad a chefndir ....13
3. Methodoleg ....19
4. Canfyddiadau ....25
5. Casgliadau ....65
6. Cyfyngiadau ac argymhellion ....70
7. Llyfryddiaeth ....72
Atodiad A: gwybodaeth am faint y sampl ....77
Atodiad B: holiaduron USoc ....78
Atodiad C: sgorio’r arddulliau rhianta mwyaf blaenllaw ....83
Atodiad Ch: amlinelliad technegol o’r dull dadansoddol ....84
Atodiad D: disgrifiadau ategol ar gyfer canlyniadau datblygiad plant yn 5 oed, 8 oed, ac 11 oed 12 oed, ledled y DU ac yng Nghymru. ....88
Atodiad Dd: canfyddiadau ategol ar gyfer y berthynas rhwng rhianta a atblygiad plant yn 11 ac 12 oed ....91

## Rhestr o'r tablau


Tabl 4.1: dulliau ac arferion rhianta rhwng 2011 a 2022 ar gyfer Cymru a'r DU...................26

Tabl 4.2: canlyniadau gwrthdaro a hunan-barch yn 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, ar gyfer Cymru a'r DU......................................................................................32

Tabl 4.3: gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng dulliau rhianta ar gyfer canlyniadau datblygiad plant a adroddwyd 11 ac 12 oed ...........................................................34

Tabl A1.1: maint y sampl ar gyfer plant yn y DU a Chymru, gan gynnwys y cyfansymiau, 3 oed, 5 oed, 8 oed, a 10 ac 15 oed.................................................................77

Tabl A1.2: canlyniadau datblygiad plant yn ôl oedran a rhanbarth, ar gyfartaledd dros 2011 a 2022 ..........................................................................................................89

Tabl A1.3: y cydberthynas rhwng dulliau rhianta, cosbi corfforol, a chanlyniadau datblygiad plant 11 ac 12 oed yng Nghymru ...............................................................92

Tabl A1.4: y cydberthynas rhwng dulliau rhianta, cosbi corfforol, a chanlyniadau datblygiad plant 11 ac 12 oed yn y DU ...........................................................................95

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1: pa mor rheolaidd y defnyddir y gwahanol fathau o gosbau corfforol a adroddwyd o 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU ....27
Ffigur 4.2: canlyniadau mewnoli lant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU .... **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 4.3: canlyniadau allanoli plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU....29
Ffigur 4.4: canlyniadau problemau gyda chyfoedion plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU ....29
Ffigur 4.5: canlyniadau cymdeithasol-fuddiol plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU .... **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 4.6: y cysylltiad rhwng defnydd mamau o gosbau corfforol a phroblemau allanoli plant, yn ôl grŵp ethnig ....38
Ffigur 4.7: y cysylltiad rhwng defnydd mamau o gosbau corfforol a phroblemau allanoli plant, yn ôl statws perthynas ....40
Ffigur 4.8 y cysylltiad rhwng defnydd tadau o gosbau corfforol a gwrthdaro â thadau a adroddwyd gan blant, yn ôl grŵp ethnig ....41
Ffigur 4.9: newidiadau yn y dulliau rhianta mwyaf blaenllaw dros amser ar gyfer y DU a Chymru....43
Ffigur 4.10: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl rhyw y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol ....46
Ffigur 4.11: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl grŵp ethnig, gydag arwyddocâd ystadegol ....47
Ffigur 4.12: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl grŵp incwm, gydag arwyddocâd ystadegol ....49
Ffigur 4.13: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl iechyd meddwl y rhiant, gydag arwyddocâd ystadegol....50
Ffigur 4.14: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl diweithdra'r rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol....51
Ffigur 4.15: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, gydag arwyddocâd ystadegol.... **Error! Bookmark not defined.**

Ffigur 4.16: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl oedran y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol ....... 54
Ffigur 4.17: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl gwleidyddiaeth y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol ....... 55
Ffigur 4.18: canran o’r holl rieni sy'n dweud eu bod yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol, ar gyfer y DU a Chymru ....... 56
Ffigur 4.19: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol rhwng mamau a thadau ....... 59
Ffigur 4.20: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl grŵp ethnig ....... 60
Ffigur 4.21: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn ....... 61
Ffigur 4.22: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl grŵp oedran y rhieni ....... 63

## Rhestr termau

### Dull rhianta

Categorïau trosfwaol sy’n nodweddu agwedd unigolyn at fagu plant ar sail yr arferion penodol y maen nhw’n eu mabwysiadu.

**Awdurdodus (neu llawdrwm)**
Dull rhianta a nodweddir gan ddisgwyliadau uchel o ran ufudd-dod, lefel isel o gynhesrwydd, ac arferion disgyblu llym.

**Anghyfrannog**
Dull rhianta a nodweddir gan lefelau isel o ofynion ac ymatebolrwydd. Nid yw rhieni’n gosod disgwyliadau nac yn rhoi cefnogaeth o ran ymddygiad, emosiynau neu anghenion y plant.

**Goddefgar (neu llac)**
Dull rhianta a nodweddir gan lefel uchel o ymatebolrwydd gan y rhiant a lefel isel o awdurdod. Mae rhieni’n gefnogol ac yn ymwybodol o anghenion emosiynol eu plentyn ond yn cael trafferth gosod ffiniau a disgwyliadau.

**Awdurdodol (neu rianta ag awdurdod)**
Dull rhianta a nodweddir gan lefel uchel o awdurdod gan y rhiant ynghyd â lefel uchel o ymatebolrwydd a chynhesrwydd. Mae rhiant yn darparu amgylchedd gofalgar a chynnes wrth osod cyfyngiadau a ffiniau cadarn.

**Cosb gorfforol/Gorfodaeth gorfforol**
Defnyddio dulliau corfforol – gan gynnwys slapio, rhoi chwip-din, neu gydio – i ddisgyblu neu gosbi plentyn.

**Ymddygiad cymdeithasol-fuddiol**
Ymddygiad gwirfoddol sydd o fudd i eraill neu sy’n hybu perthynas gytûn gyda phobl eraill (e.e. ystyried teimladau pobl eraill).

**Problemau gyda chyfoedion**
Anawsterau yn ymwneud â pherthynas gyda chyfoedion (e.e. yn cael eu bwlio neu blant eraill yn pigo arnynt).

**Allanoli**
Anawsterau ymddygiadol camaddasol sydd wedi’u cyfeirio at amgylchedd unigolyn. Wedi’i sgorio ar sail problemau ymddygiad a adroddwyd (e.e., dweud celwydd neu’n twyllo yn aml) a gorfywiogrwydd (e.e., yn aflonydd, gorfywiog, yn methu ag aros yn llonydd am gyfnod hir).

**Mewnoli**
Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol camaddasol wedi'u cyfeirio'n fewnol. Wedi’i sgorio ar sail problemau a adroddwyd gyda chyfoedion a phroblemau emosiynol (e.e., llawer o ofnau, hawdd eu dychryn).

**Hunan-barch**
Hyder yn eich gwerth neu eich galluoedd eich hun.

**Gwrthdaro â rhieni**
Pa mor rheolaidd yw’r dadleuon gyda mamau a/neu dadau.

# 1. Crynodeb gweithredol

## Nodau a methodoleg

1.1 Mae rhianta yn bwnc canolog i amrywiaeth o gynlluniau a chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chosbi corfforol a Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y cyfeirir ati yma fel y Ddeddf)[1], a'r rhai sy'n annog dull o rianta ag awdurdod (rhianta cadarnhaol).

1.2 Defnyddiodd yr ymchwil hwn arolwg carfan mawr, cynrychioliadol yn y DU i archwilio'r berthynas rhwng dulliau rhianta/cosbi corfforol a chanlyniadau datblygiad plant. Archwiliwyd hefyd y newidiadau yn y dulliau hyn o rianta rhwng 2012 a 2022, a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau o unigolion. Mae hyn yn cynrychioli'r 10 mlynedd cyn i Adran 1 y Ddeddf ddod i rym. Er bod data disgrifiadol yn cael ei gyflwyno ar wahân ar gyfer Cymru a'r DU, roedd dadansoddiadau ystadegol yn defnyddio data'r DU gyfan, gan gynnwys gwlad fel newidyn grwpio er mwyn asesu unrhyw effeithiau ar wlad benodol.

1.3 Roedd yr ymchwil yn cynnwys dadansoddiad ystadegol o'r canlynol:

- y berthynas rhwng y 4 dull rhianta (rhianta awdurdodus, rhianta anghyfrannog, rhianta goddefgar, rhianta awdurdodol/cadarnhaol) ac allanoli problemau, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â'u rhieni sy'n cael eu hadrodd gan blant 11 ac 12 oed (gweler y Rhestr termau am ddiffiniad o'r termau)
- y berthynas rhwng lefel y gosb gorfforol a adroddir gan rieni (pa mor rheolaidd y maen nhw'n defnyddio cydio, smacio, slapio, a chosb gorfforol fel dull disgyblu) a phroblemau allanoli, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â'u rhieni sy'n cael eu hadrodd gan blant 11 ac 12 oed
- y newidiadau yn y gyfran o rieni sy'n mabwysiadu pob dull rhianta rhwng 2012 a 2022, a'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau ar lefel y plentyn, y rhiant ac ar lefel amgylchiadol
- y newidiadau yn y gyfran o rieni a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cosbau corfforol rhwng 2012 a 2022, a'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau ar lefel y plentyn, y rhiant ac ar lefel amgylchiadol.

**Canfyddiadau allweddol**

Rhianta a chanlyniadau datblygiad plant

Dulliau rhianta

1.4 Yn gyffredinol, mae gan ddulliau rhianta awdurdodus, neu lawdrwm, ac anghyfrannog oblygiadau mwy negyddol o ran problemau allanoli plant, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â rhieni, o’u cymharu â dulliau rhianta awdurdodol a goddefgar neu lac.

1.5 Mae'r effeithiau hyn yn gryfach ac yn fwy cyson pan mai’r mamau sy'n mabwysiadu’r dull rhianta awdurdodus neu anghyfrannog, o'i gymharu â thadau.

1.6 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaeth yn yr effeithiau hyn ar sail gwlad, ethnigrwydd y plentyn, rhyw a bennwyd ar adeg geni’r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, na statws perthynas y rhieni.

Cosb gorfforol

1.7 Yn gyffredinol, mae cydberthynas rhwng lefelau uwch o gosbi corfforol a adroddwyd a chanlyniadau gwaeth o ran datblygiad plant.

1.8 Ar gyfer problemau allanoli ac ymddygiad gymdeithasol-fuddiol, dim ond yng nghyswllt mamau roedd yr effaith hon yn arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd cysylltiad rhwng cosbi corfforol a mwy o wrthdaro rhwng y plentyn a'r rhiant yn berthnasol i famau a thadau fel ei gilydd.

1.9 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaeth yn yr effeithiau hyn ar sail gwlad, rhyw a bennwyd ar adeg geni’r plentyn, neu niwrowahaniaeth y plentyn.

1.10 Fodd bynnag, roedd effaith cosb gorfforol gan famau ar broblemau allanoli plant ar ei gryfaf ymysg plant o gefndiroedd ethnig cymysg neu luosog, ac ar ei wannaf ymysg y rhai o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig.

1.11 Ar ben hynny, roedd y berthynas negyddol rhwng cosb gorfforol gan famau ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol plant yn gryfach ar gyfer mamau sengl, o’i gymharu â mamau nad ydynt yn sengl.

1.12 Yn olaf, roedd cosbi corfforol a adroddwyd gan dadau yn dangos cydberthynas negyddol cryfach o ran y gwrthdaro gyda thadau a adroddwyd gan blant yn achos plant o'r grwpiau ethnig Gwyn neu gymysg/lluosog, o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau ethnig Du neu Asiaidd. Ar gyfer y 2 grŵp olaf, roedd lefelau uwch o gosbi corfforol yn gysylltiedig â *llai* o wrthdaro a adroddwyd.

## Newidiadau mewn rhianta dros amser a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau

### Dulliau rhianta

1.13 Bu gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y rhieni sy'n rhianta'n awdurdodus neu'n llawdrwm, a chynnydd yn nifer y rhieni sy'n rhianta'n oddefgar neu'n llac, rhwng 2012 a 2022.

1.14 Nid oedd cyfradd y newid dros amser yn amrywio yn ôl gwlad, rhyw y rhiant, oedran y rhieni, grŵp incwm y rhieni, iechyd meddwl neu gorfforol y rhieni, diweithdra ymhlith y rhieni, statws perthynas y rhieni, gwleidyddiaeth y rhieni, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, neu a oedd y plentyn yn anabl.

1.15 Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau cyffredinol yn y dulliau rhianta rhwng y grwpiau.

1.16 Tra roedd tadau'n fwy tebygol o fod yn anghyfrannog neu'n oddefgar/llac, roedd mamau'n fwy tebygol o fod yn awdurdodol.

1.17 Roedd rhieni o'r grwpiau ethnig Asiaidd neu Ddu yn fwy tebygol o fod yn awdurdodus o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau ethnig Gwyn neu gymysg/lluosog. Ar y llaw arall, roedd rhieni o grwpiau ethnig Gwyn yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog na'r rhai o grwpiau ethnig Du.

1.18 Yn gyffredinol, roedd rhieni o grwpiau incwm uwch yn fwy tebygol o fod yn oddefgar/llac o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau incwm is. Ar y llaw arall, roedd y rhai o'r grwpiau incwm is yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog na'r rhai o'r grwpiau incwm uwch.

1.19 Roedd rhieni oedd yn dweud bod ganddynt broblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol na'r rhai heb broblemau iechyd meddwl o fod yn anghyfrannog, ond yn llai tebygol o rianta ag awdurdod.

1.20 Yn yr un modd, roedd rhieni di-waith yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog, ac yn llai tebygol o rianta ag awdurdod na rhieni nad oeddent yn ddi-waith.

1.21 Roedd rhieni'n fwy tebygol o fod yn awdurdodus gyda bechgyn, o’u cymharu â merched.

1.22 Yn gyffredinol, roedd rhieni yn y grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhieni goddefgar, ac yn llai tebygol o fod yn awdurdodus neu’n anghyfrannog, o’u cymharu â rhieni iau. Fodd bynnag, roedd ambell i eithriad i'r patrwm hwn (gweler Ffigur 4.16).

1.23 Yn olaf, roedd rhieni â thueddiadau gwleidyddol yn y canol yn fwy tebygol o fod yn oddefgar, ac yn llai tebygol o fod yn anghyfrannog, o'u cymharu â'r rheini â thueddiadau gwleidyddol adain chwith, adain dde, neu ddim o gwbl.

### Cosb gorfforol

1.24 Roedd gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o gosbi corfforol a adroddwyd gan rieni rhwng 2012 a 2022.

1.25 Nid oedd cyfradd y newid dros amser yn amrywio rhwng unrhyw grŵp.

1.26 Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn lefelau cyffredinol y cosbi corfforol a adroddwyd.

1.27 Roedd tadau yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol na mamau.

1.28 Roedd rhieni o’r grwpiau ethnig Du neu Asiaidd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o’u cymharu â'r rheini o’r grwpiau ethnig Gwyn.

1.29 Roedd rhieni'n fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol ar gyfer plant a gafodd eu pennu’n wrywaidd ar adeg eu geni, o’u cymharu â'r rhai a gafodd eu pennu’n fenywaidd.

1.30 Roedd rhieni 31 ac 40 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol na'r rhai 51 oed neu'n hŷn.

**Casgliadau a goblygiadau**

Deddf plant (diddymu amddiffyniad cosb resymol) (Cymru) 2020

1.31 Mae'r canfyddiadau'n rhoi cefnogaeth bellach i'r gwaharddiad ar y defnydd o gosbi corfforol, gan ddangos effeithiau negyddol cosbi corfforol ar ystod o ganlyniadau datblygiad plant.

1.32 Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hefyd yn rhoi gwybodaeth fwy cynnil yn hyn o beth, ac mae'n ymddangos bod rhai grwpiau'n ymateb yn wahanol i gosbi corfforol.

1.33 Mae'r canfyddiadau'n rhoi tystiolaeth sylfaenol bellach o'r lefelau cyffredinol o gosbi corfforol a adroddwyd gan rieni yn ystod y 10 mlynedd cyn i'r Ddeddf ddod i rym. Mae hyn yn rhoi cyd-destun pellach ar gyfer gwerthuso'r newidiadau mewn agweddau ar ôl y newid yn y gyfraith, a fframwaith posibl ar gyfer archwilio'r newidiadau mewn lefelau cosbi corfforol ar ôl i'r ddeddf ddod i rym.

1.34 Gall y gwahaniaeth yn y lefelau cyffredinol o gosbi corfforol rhwng y grwpiau annog ymchwil mwy penodol ar ôl y ddeddf sy'n ystyried unrhyw wahaniaethau yn yr ymateb i'r newid yn y gyfraith rhwng y grwpiau penodol.

Cynlluniau rhianta Llywodraeth Cymru

1.35 Mae'r canfyddiadau'n cefnogi, yn fras, nodau cynlluniau fel Magu Plant: Rhowch amser iddo a'u ffocws ar rianta ag awdurdod[2]. Maen nhw hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhianta goddefgar/llac - sy'n debyg i rianta ag awdurdod o ran lefelau uchel o gynhesrwydd - yn arwain at ganlyniadau ffafriol o'i gymharu â dulliau llawdrwm/awdurdodus ac anghyfrannog, ar gyfer plant 11 ac 12 oed o leiaf.

1.36 Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos gwybodaeth fwy cynnil am y berthynas rhwng rhianta a'r canlyniadau i'r plentyn, ac am y gwahaniaethau yn y defnydd o'r dulliau rhianta rhwng y grwpiau.

1.37 Roedd y berthynas rhwng rhianta ag awdurdod a chanlyniadau cadarnhaol yn natblygiad y plentyn yn fwy amlwg mewn mamau. Roedd yr effeithiau'n llai amlwg ar gyfer tadau, ac yn ymwneud yn bennaf â rhianta goddefgar. Roedd hi hefyd yn wir fod rhianta awdurdodol yn llawer mwy cyffredin ymhlith mamau na thadau.

1.38 Mae'n bosibl bod yr elfen o 'gynhesrwydd' sy'n gyffredin i'r dull awdurdodol a'r dull goddefgar/llac yn ganolog i'r cysylltiad rhwng dulliau tadau o rianta a datblygiad y plant, tra bod cynhesrwydd a rheolaeth yn bwysig yn achos mamau. Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio'r posibilrwydd hwn yn uniongyrchol er mwyn cynnig goblygiadau mwy penodol.

1.39 Mae'n bosibl y gall y gwahaniaethau rhwng y grwpiau o ran pwy sy'n mabwysiadu'r dulliau rhianta ffafriol hyn, a'r dulliau awdurdodus ac anghyfrannog, sy'n llai ffafriol, yn amlygu pa blant sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniadau datblygiadol negyddol.

1.40 Trafodir y cyfyngiadau a'r cyfeiriadau posibl ar gyfer y dyfodol yn adran 6.

# 2. Cyflwyniad a chefndir

## Nodau

2.1 Nod y prosiect hwn oedd archwilio newidiadau mewn dulliau rhianta dros amser gan ddefnyddio data o set ddata Understanding Society (USoc). Yn benodol, defnyddiodd yr ymchwil y set ddata Beichiogrwydd a Phlentyndod Cynnar[3], ochr yn ochr â newidynnau o safbwynt yr unigolyn, y teulu a'r gymdeithas o'r astudiaeth yn ehangach er mwyn ystyried:[4]

- sut mae dulliau rhianta a chosbi corfforol yn berthnasol i ganlyniadau allweddol yn natblygiad plant sy'n berthnasol i gynlluniau a chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â rhianta cadarnhaol
- sut mae dulliau rhianta a chosbi corfforol wedi newid ar draws camau'r astudiaeth, ac a yw'r newidiadau hyn yn amrywio ar sail nodweddion penodol ar lefel yr unigolyn a'r grŵp.

## Cefndir

Dulliau rhianta a chosbi corfforol

2.2 Mae amrywiaeth o fframweithiau damcaniaethol yn ystyried rhianta yn ganolog i ddatblygiad cadarnhaol plant. O ganlyniad, ceir llawer iawn o ymchwil sy'n archwilio'r berthynas rhwng gwahanol agweddau ar rianta a chanlyniadau datblygiad plant amrywiol.

2.3 Mae ymchwilwyr wedi defnyddio tair ffordd o feddwl am rianta - arferion penodol y gellir eu gweld (e.e. taro plentyn fel cosb), agweddau ar fagu plant (h.y., grŵp o arferion tebyg sy'n crisialu un agwedd ar y broses rianta, megis cynhesrwydd a rheolaeth), neu arddulliau rhianta (h.y., categorïau trosfwaol sy'n cynrychioli agwedd unigolyn tuag at fagu plant).

2.4 Mae USoc yn defnyddio'r Holiadur Dulliau ac Agweddau Rhianta (PSDQ)[5] dilys, sy'n gofyn ystod o gwestiynau i rieni yn ymwneud â'u harferion rhianta. O'r ymatebion hyn, mae dulliau rhianta yn cael eu diffinio fel pedair agwedd wahanol.

- Rhianta awdurdodus – lefel uchel o reolaeth dros ymddygiad plentyn ac ychydig iawn o gynhesrwydd. Cyfeirir ato'n aml fel Rhianta Llawdrwm.
- Rhianta goddefgar – ychydig iawn o reolaeth ond lefel uchel o gynhesrwydd. Ychydig iawn o gyfarwyddyd a rheolau sy'n cael eu rhoi gan y rhieni. Cyfeirir ato hefyd fel Rhianta Llac.
- Rhianta awdurdodol – lefel uchel o reolaeth a lefel uchel o gynhesrwydd. Mae rhieni'n rhoi annibyniaeth i blant ac yn ymresymu gyda'r plentyn ynghylch rheolau a chanlyniadau. Cyfeirir ato weithiau fel Rhianta ag Awdurdod.
- Rhianta anghyfrannog - lefel isel o reolaeth a chynhesrwydd. Mae hyn yn golygu nad oes unrhyw ddull disgyblu penodol ac ychydig iawn o gyfathrebu gyda'r plentyn.

2.5 Mae rhai o'r dulliau hyn hefyd yn cynnwys is-agweddau. Yn berthnasol i'r ymchwil hwn, gelwir un o'r is-agweddau o fewn y dull awdurdodus yn 'defnyddio gorfodaeth gorfforol' – sef defnyddio ystod o ddulliau corfforol i ddisgyblu neu gosbi plant. Yn yr adroddiad hwn, mae 'cosb gorfforol' yn cyfeirio at y wybodaeth a adroddwyd ar gyfer yr is-agwedd hon.

### Dulliau rhianta a datblygiad plant

2.6 Yn gyffredinol, mae ymchwil yn dangos bod cydberthynas rhwng rhianta awdurdodol a chanlyniadau mwy cadarnhaol o ran datblygiad plant/pobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys llai o broblemau emosiynol ac ymddygiadol, a chyrhaeddiad academaidd uwch. Ar y llaw arall, yn gyffredinol mae cydberthynas rhwng rhianta awdurdodus a chanlyniadau negyddol, fel lefelau uwch o ymddygiad ymosodol a diffyg hunan-barch. Yn yr un modd, ceir cydberthynas rhwng rhianta anghyfrannog a datblygiad anhawster i reoli emosiynau, meithrin a chynnal perthnasoedd cymdeithasol, yn ogystal â strategaethau ymdopi aneffeithiol a heriau academaidd. Mae'r dystiolaeth o ran rhianta goddefgar yn fwy cymysg. Er bod rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu cysylltiadau â phroblemau ymddygiad ac ymddygiadau mwy peryglus yn ystod y glasoed, efallai y bydd gan blant lefel dda o

hunan-barch a sgiliau cymdeithasol hefyd, o'u cymharu â'r rhai sydd â rhieni awdurdodus neu anghyfrannog.[6]

2.7 Yn unol â'r ymchwil hwn, mae'r rhan fwyaf o rieni a holwyd yng Nghymru yn cytuno mai rhianta cadarnhaol/awdurdodol yw'r ffordd orau o reoli ymddygiad plant[7]. Fodd bynnag, mae ymchwil arall yn dangos bod rhai arferion nad ydynt yn cyd-fynd â'r dull rhianta hwn, megis gweiddi, yn cael eu mabwysiadu'n rheolaidd gan rieni yng Nghymru[8].

Cosbi corfforol a datblygiad plant

2.8 Derbynnir yn gyffredinol bod rhieni awdurdodus yn fwy tebygol o ddefnyddio cosb gorfforol[9]. Yr elfen hon yw un o'r prif gyfranwyr at y berthynas rhwng y dull hwn a chanlyniadau gwael o ran datblygiad plant, o'i gymharu â dulliau rhianta eraill.

2.9 Yn ôl adolygiad diweddar gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (PPIW), roedd cyswllt dieithriad rhwng cosbi corfforol difrifol a chanlyniadau negyddol i blant, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod cosbi corfforol o unrhyw fath, neu o dan unrhyw amgylchiadau, yn cael effeithiau cadarnhaol ar ddatblygiad plentyn[10]. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried pwysigrwydd ansawdd perthnasoedd teuluol er mwyn rhagweld anawsterau emosiynol ac ymddygiadol mewn plant yng Nghymru[11], a'r cyswllt rhwng cosbi corfforol a pherthynas wael rhwng rhiant a phlentyn[12].

2.10 Yn unol â'r dystiolaeth hon, mae rhieni hefyd yn cytuno'n gyffredinol bod cosbi plant yn gorfforol yn gwneud mwy o ddrwg nag o les, ac yn 2024, dim ond 2 y cant o rieni yng Nghymru a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol yn ystod y 12 mis blaenorol[13]. Fodd bynnag, yn ôl yr un adroddiad, roedd 25 y cant o rieni yn honni bod cosb gorfforol o leiaf yn weddol effeithiol, ac roedd 23 y cant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod angen cosbi plentyn yn gorfforol weithiau. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o ddatgysylltiad rhwng agweddau tuag at gosbi corfforol a'r defnydd ohono. Ymhellach, yn ôl camau 6 a 7 o adroddiad Beaufort, a gynhaliwyd yn dilyn gwahardd cosbi corfforol, bu cynnydd bychan yn yr agweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio cosbau corfforol mewn rhai sefyllfaoedd, o gymharu â'r camau cynharach [14][15].

2.11 Nododd adroddiad PPIW hefyd rai cyfyngiadau allweddol yn y deunydd darllen, sy'n cael eu hadlewyrchu yn y deunydd darllen ar ddulliau rhianta yn ehangach. Yn gyntaf, roedd canlyniadau datblygiad plant yn ymwneud ag ymddygiad yn bennaf, gyda llai o ffocws ar ganlyniadau emosiynol, iechyd meddwl ac o ran perthynas. Yn ail, roedd gwahaniaethau rhwng grwpiau ar sail ffactorau megis oedran, rhyw y plentyn a'r rhiant, a grŵp ethnig, yn aml yn cael eu hanwybyddu. Yn drydydd, yn aml nid oedd amrywiadau posibl o ran dull rhianta a'r canlyniadau i'r plant, a'r cysylltiad rhwng y ddau beth, yn ôl ffactorau amgylchiadol/yn ymwneud â'r rhieni, megis iechyd meddwl y rhieni, yn cael eu hystyried.

2.12 Mae'n bwysig nodi bod ymchwil helaeth gan y llywodraeth ac ymchwil academaidd arall wedi tynnu sylw at nifer o'r newidynnau hyn fel rhai allweddol o safbwynt rhianta a chanlyniadau datblygiad plant. Er enghraifft, mae'r hyn sy'n norm ar gyfer gwahanol grwpiau diwylliannol ac ethnig nid yn unig yn effeithio ar pa arferion rhianta a fabwysiadir gan amlaf, ond hefyd effeithiau'r arferion hyn ar ganlyniadau datblygiad plant[16]. Ymhellach, mae'r berthynas gref rhwng iselder mamau ac iechyd meddwl gwaeth yn eu merched yn cael ei greu gan ddefnydd cynyddol o rianta awdurdodus, a llai o ddefnydd o rianta ag awdurdod/awdurdodol[17]. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig yng nghyd-destun cymdeithas gynyddol amlethnig[18], ac mae adroddiad gan Public Health England yn nodi bod 1 o bob 4 plentyn yn y DU yn byw gyda rhiant a oedd yn profi rhywfaint o ofid emosiynol rhwng 2015 a 2016[19].

2.13 Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen i ddeall yn well rai o'r ffactorau sy'n sail i wahanol ddulliau magu plant a'r defnydd o gosbau corfforol yn benodol, yn ogystal â chysylltiadau ag ystod ehangach o ganlyniadau datblygiad plant.

### Newidiadau mewn dulliau ac arferion rhianta dros amser

2.14 O ystyried yr hyn y mae'r ymchwil yn ei awgrymu ynglŷn â rôl magu plant yn natblygiad plant, mae deall a ydynt/sut y maent wedi newid dros amser yn nod pwysig arall. Mae peth ymchwil yn awgrymu bod plant yn debygol o fabwysiadu dulliau rhianta tebyg i'w rhieni, sy'n awgrymu bod rhywfaint o barhad rhwng

cenedlaethau o ran dulliau rhianta[20]. Gall y parhad hwn gael ei gyfleu gan ganlyniadau datblygiad plant. Er enghraifft, gall ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn plant a phobl ifanc arwain at drosglwyddo dulliau rhianta llym/awdurdodus rhwng cenedlaethau[21]. Yn yr un modd, gall datblygu cysylltiadau cadarnhaol gyda chyfoedion arwain at drosglwyddo dulliau rhianta cynnes/cefnogol[22]. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw deall y cysylltiadau rhwng rhianta a chanlyniadau datblygiad plant yn well.

2.15 Fodd bynnag, mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod gwahaniaethau yn y ffordd y mae magu plant yn newid dros amser yn dibynnu ar ffactorau fel gwerthoedd yr unigolyn a gwerthoedd y gymdeithas[23], lefel addysg[24], ysgariad[25], statws economaidd-gymdeithasol[26], ac ethnigrwydd[27].

2.16 Ychydig iawn o waith ymchwil sydd wedi archwilio'r newidiadau i fagu plant ar lefel gymdeithasol, sy'n ei gwneud hi'n anodd ystyried amrywiadau ar sail y ffactorau grwpio hyn. Fodd bynnag, yn ôl adroddiad diweddar gan Adran Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd y DU roedd y defnydd o gosbi corfforol, yn benodol, wedi gostwng rhwng 2013 a 2021. Fodd bynnag, adroddwyd bod 22 y cant o rieni wedi defnyddio cosbau corfforol, o leiaf yn achlysurol, yn 2021[28].

2.17 Mae set ddata USoc mewn sefyllfa dda i geisio deall yn well y newidiadau mewn dulliau rhianta a chosbi corfforol dros amser yn y DU ac yng Nghymru, trwy ystyried ffactorau ar lefel yr unigolyn, y teulu a'r gymdeithas. Gallai hyn fod yn hanfodol i bontio'r bwlch rhwng ein dealltwriaeth o ddulliau rhianta a chosbi corfforol, a chael ei ddefnyddio wrth helpu rheini gyda magu plant.

### Cwestiynau ymchwil

2.18 Ar sail y canlyniadau cyffredinol a gasglwyd o gynlluniau allweddol Llywodraeth Cymru, y llenyddiaeth gyfredol, a natur set ddata USoc, ystyriodd y prosiect hwn ddau gwestiwn ymchwil cyffredinol.

- A oes cydberthynas rhwng dulliau rhianta, cosbi corfforol a chanlyniadau datblygiad plant?

- A yw dulliau rhianta/cosbi corfforol yn y DU, ac yng Nghymru yn benodol, wedi newid dros amser rhwng 2012 a 2022, ac a yw hyn yn amrywio yn ôl ffactorau allweddol ar lefel yr unigolyn, y teulu a’r gymdeithas?

# 3. Methodoleg

## Dull ymchwil

3.1 Mae'r ymchwil hwn yn defnyddio set ddata USoc. Astudiaeth hydredol genedlaethol o aelwydydd yn y DU sy'n cael ei chynnal ers 2009 yw USoc. Mae USoc yn cynnwys aelodau o bob oed ym mhob cartref, gan ganiatáu dadansoddiad meintiol o'r berthynas rhwng y newidynnau ar lefel y rhiant a'r plentyn, yn ogystal â newidiadau i'r newidynnau hyn dros amser.

## Dulliau ymchwil

Sampl

3.2 Roedd y sampl gyffredinol yn set ddata USoc yn cynnwys plant a oedd yn 5, 8, a/neu'n 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022. Fodd bynnag, roedd pob dadansoddiad yn cynnwys is-sampl gwahanol yn seiliedig ar strwythur y data a'r allbynnau y bwriedid eu cael ohono.

3.3 Darparwyd disgrifiadau ar gyfer y sampl gyfan ar gyfer pob plentyn 5, 8, ac 11 ac 12 oed (ar gyfer y newidynnau yn ymwneud â datblygiad plant), ac ar gyfer yr holl rieni i blant 10 oed (ar gyfer y newidynnau rhianta).

3.4 Roedd dadansoddiadau ystadegol o'r berthynas rhwng y newidynnau rhianta a'r canlyniadau o ran datblygiad plant yn cynnwys pob plentyn 11 ac 12 oed, a newidynnau rhianta a adroddwyd gan rieni pan oedd y plentyn yn 10 oed, ar draws camau 7 ac 13 USoc (2015 a 2022)[29]. Gan mai dim ond ar un pwynt mewn amser y casglwyd y data am rianta, roedd ystyried y grŵp oedran hwn yn rhoi gwell cyfrif o ddylanwad unigryw dulliau rhianta ar ganlyniadau datblygiad plant. Ymhellach, roedd ystyried 1 grŵp oedran yn gwneud y mwyaf o faint y sampl ac yn caniatáu dadansoddiad mwy manwl o'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau.

3.5 Roedd dadansoddiadau ystadegol o'r newidiadau mewn newidynnau rhianta dros amser yn cynnwys holl rieni plant 10 oed, ar draws camau 4 ac 14 USoc (2012 a 2022), wedi'u rhannu'n flociau o 2 flynedd (2012 a 2014, 2014 a 2016, ac ati).

3.6 Roedd dadansoddiadau ystadegol hefyd yn cynnwys 1 plentyn yn unig i bob cartref, er mwyn cyfyngu ar faterion yn ymwneud ag annibyniaeth ystadegol a

chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar ganlyniadau ar lefel unigolyn. Gallai ymchwil yn y dyfodol ystyried yr effeithiau ar lefel teuluol yn fwy penodol.

3.7 Darperir maint y sampl ar gyfer pob dadansoddiad gan eu bod yn amrywio. Ceir amlinelliad llawn o faint y samplau yn ôl oedran a rhanbarth yn Atodiad A.

## Newidynnau

### Newidynnau rhianta

3.8 Adroddwyd newidynnau rhianta gan rieni pan oedd pob plentyn yn 10 oed.

- Dulliau rhianta: awdurdodus, goddefgar, awdurdodol, anghyfrannog. Codwyd y rhain o'r ymatebion i'r PSDQ, sydd i'w gweld yn Atodiad B. Fe'u hystyriwyd yn nhermau cyfanswm y sgoriau ar bob graddfa, a'r categori dull rhianta mwyaf blaenllaw, ar gyfer pob rhiant. Ceir rhagor o wybodaeth am y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn Atodiad C.
- Defnyddio cosbau corfforol: yn cael ei sgorio ar is-raddfa 'gorfodaeth gorfforol' y PSDQ – yr ymatebion i 4 cwestiwn yn ymwneud â rhoi chwip-din, slapio, cydio, a defnyddio cosbau corfforol, yn benodol fel ffordd o ddisgyblu plant. Dadansoddwyd y rhain yn nhermau sgôr parhaus fel swm ar gyfer ymatebion i'r cwestiynau hyn, ac fel newidyn categori i ddynodi a oedd rhieni'n dweud eu bod yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol.

### Newidynnau o ran canlyniadau datblygiad plant

3.9 Cafodd y rhain eu hadrodd gan rieni pan oedd y plant yn 5 ac 8 oed, a'u hadrodd gan y plant yn 11 ac 12 oed. Roeddent yn cynnwys ystod o elfennau o'r Holiadur Cryfderau ac Anawsterau (SDQ)[30]. Mae'r SDQ llawn, yn ogystal â chwestiynau pellach yn ymwneud â datblygiad plant, i'w gweld yn Atodiad B.

- Mewnoli - problemau emosiynol a phroblemau gyda chyfoedion
- Allanoli - problemau ymddygiad a gorfywiogrwydd
- Problemau gyda chyfoedion

- Ymddygiad cymdeithasol-fuddiol

3.10 Dim ond pan oedd y plant yn 11 ac 12 oed y casglwyd rhai o'r newidynnau datblygiad plant.

- Hunan-barch – mesur parhaus gyda thorbwynt yn nodi hunan-barch isel[31].
- Gwrthdaro gyda mamau a thadau a adroddir gan blant – pa mor aml y mae plant yn dadlau gyda'u rhiant.

Newidynnau pellach

3.11 Ystyriwyd amrywiaeth o newidynnau pellach. Newidynnau rheolydd oedd y rhain (sy'n cael eu cadw'n gyson i sicrhau nad ydynt yn achosi'r effaith dan sylw) a newidynnau cymedroli (newidynnau grwpio a ddefnyddir i archwilio'r gwahaniaethau yn yr effeithiau rhwng grwpiau o unigolion)[32].

- Iechyd meddwl rhieni – a oedd rhieni uwchlaw neu islaw torbwynt penodol (2) yn yr Holiadur Iechyd Cyffredinol (GHQ-12)[33].
- Cyflyrau iechyd hirdymor rhieni – a oedd rhieni wedi adrodd am unrhyw gyflwr iechyd hirdymor arall.
- Statws perthynas rhieni – p'un ai a oedd rhieni yn y cartref yn sengl ai peidio.
- Oedran rhieni
- Diweithdra:
    - Un rhiant yn ddi-waith
    - Lefelau diweithdra yn y cartref (pob rhiant, 1 o 2 riant, dim un o'r rhieni)
- Grŵp incwm y cartref:
    - Tlawd (llai na 50 y cant o'r incwm canolrifol)[34]
    - Isel (50 - 75% o'r incwm canolrifol)
    - Canol (75 - 200% o'r incwm canolrifol)

- Uwch (dros 200% o'r incwm canolrifol)

- Grŵp ethnig[35]:
    - Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig
    - Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd
    - Gwyn
    - Grwpiau ethnig cymysg neu amlethnig
- Gwlad yn y DU
- Rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn.
- Niwrowahaniaeth plentyn – a yw'r plentyn wedi cael diagnosis o awtistiaeth, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, anabledd dysgu, neu ddyslecsia[36].
- Amhariad corfforol ar blentyn – a yw'r plentyn yn fyddar neu'n drwm ei glyw, yn ddall neu'n rhannol ddall, neu a oes ganddo unrhyw amhariad corfforol arall, ac yn cael ei anablu gan rwystrau yn y gymdeithas[37].
- Safbwyntiau gwleidyddol - wedi'u categoreiddio fel adain chwith, canol, neu adain dde, ar sail y dewisiadau pleidleisio a adroddwyd.

Dadansoddiad ystadegol

3.12 Roedd pob dadansoddiad yn dilyn tri cham.

- Disgrifio'r data amrwd wedi'i bwysoli trwy ddefnyddio tablau a delweddau.
- Cynnal dadansoddiadau ystadegol ar newidynnau o ddiddordeb.
- Archwilio rhyngweithiadau arwyddocaol trwy ddelweddu a chynnal profion pellach.

3.13 Roedd dadansoddiadau ystadegol yn cynnwys defnyddio modelau llinol cyffredinol, sy'n caniatáu archwilio sut mae newidynnau rhagfynegol yn dylanwadu ar ganlyniadau gwahanol fathau o ddata, wrth reoli neu gymedroli newidynnau pellach. Defnyddiwyd y modelau hyn i ddadansoddi rhianta mewn perthynas â

chanlyniadau datblygiad plant, a newidiadau yn y newidynnau rhianta dros amser. Dosbarthwyd y modelau mewn dau gam.

- Modelau heb eu cymedroli, yn edrych ar ragfynegyddion o ddiddordeb wrth osod rheolyddion ar gyfer newidynnau allweddol o ran teuluol ac amgylchiadau.
- Modelau wedi'u cymedroli, gan ystyried a oedd yr effeithiau hyn yn amrywio rhwng grwpiau.

3.14 Ceir amlinelliad technegol o’r dull ystadegol yn Atodiad Ch.

Pwysoli

3.15 Cafodd amcangyfrifon poblogaeth, a dadansoddiadau ystadegol, eu pwysoli. Mae hyn yn bwysig, gan fod sampl USoc yn sampl strata sydd â dyluniad clystyrog gyda rhai mathau o bobl yn cael eu gorgynrychioli yn y sampl (e.e., trigolion Cymru, rhai grwpiau ethnig). Mae pwysoli yn sicrhau bod y canlyniadau’n cyfrif am hyn er mwyn rhoi adlewyrchiad cywir o’r boblogaeth sydd dan sylw.

3.16 Roedd pwysoliadau o fewn set ddata USoc, wedi’u dethol a'u graddio ar gyfer pob dadansoddiad gan ddilyn y canllawiau a roddwyd[38].

Canllawiau ar gyfer adrodd

3.17 Ar gyfer data disgrifiadol, mae’r ystadegau canlynol, neu rai ohonynt, yn cael eu hadrodd ar gyfer pob adran.

- Canran y sampl sy'n dod o fewn y bandiau a sefydlwyd ymlaen llaw.
- Cymedr – y cyfartaledd ar gyfer poblogaeth neu is-boblogaeth benodol.
- Gwyriad safonol – gwyriad y gwerthoedd unigol o’r sgôr cymedrig. Mae gwyriad safonol uwch yn awgrymu bod y data wedi ei wasgaru’n ehangach.
- Y gwerthoedd lleiaf a’r gwerthoedd uchaf a adroddir.

3.18 Ar gyfer y dadansoddiadau ystadegol, defnyddir yr ystadegau a'r disgrifyddion canlynol.

- Arwyddocaol yn ystadegol – mae'r tebygolrwydd o sicrhau canfyddiad o ganlyniad i siawns yn llai nag un o bob 20 ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.  Mae arwyddocâd ystadegol yn cael ei ddynodi naill ai trwy iaith ysgrifenedig ('arwyddocaol yn ystadegol' neu 'arwyddocaol'), neu seren (e.e., 1.5*) o fewn rhai delweddau.
- Maint yr effaith – arwyddocâd ymarferol y canfyddiadau. Roedd y rhain yn amrywio yn seiliedig ar y math o ddata. Ar gyfer mesurau canlyniadau rhifiadol, adroddir bod y rhain yn fach, yn ganolig, neu'n fawr, yn seiliedig ar y lefelau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer maint pob effaith. Ar gyfer mesur canlyniadau yn ôl categori, adroddir maint yr effaith yn nhermau tebygolrwydd a'r cymarebau ods – faint yn fwy tebygol yw'r canlyniad ar gyfer un grŵp o'i gymharu ag un arall.

**Nodyn ar newidiadau wrth gasglu data dros amser**

3.19 Casglwyd data rhwng 2020 a 2022 yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus Covid-19. O ystyried y cyfyngiadau oedd ar waith yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd nifer cynyddol o arolygon ar-lein neu dros y ffôn, o'u cymharu â'r camau blaenorol.

3.20 Er bod pob dull arolygu wedi'i gynllunio i gynhyrchu canfyddiadau cenedlaethol cynrychioliadol, mae'n bosibl y gallai'r newid yn y modd o'u cynnal gael rhywfaint o effaith ar y canlyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd rhai ymatebwyr yn ateb yn wahanol pan nad oes cyfwelydd yn bresennol. Er bod diffyg tystiolaeth bendant ynglŷn â hyn, mae'n dueddol o gael mwy o effaith ar gwestiynau sy'n ymwneud â gwerthoedd ac ymddygiad, o'u cymharu â'r rhai sy'n ymwneud â gwybodaeth fwy ffeithiol . Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli unrhyw newidiadau neu ddiffyg newid yn y canlyniadau rhwng y camau cyn y newid yn y dull cyfweld ac wedi hynny, oherwydd gallai'r newid hwn yn y dull cyfweld effeithio'n rhannol ar y newidiadau.

# 4. Canfyddiadau

**Dulliau rhianta, cosbi corfforol a datblygiad plant – ystadegau disgrifiadol cyfartalog ar gyfer plant a rhieni rhwng 2011 a 2022.**

4.1 Ceir disgrifiadau cyffredinol isod ar gyfer pob newidyn allweddol ar lefel y rhieni a lefel y plentyn er mwyn rhoi dadansoddiadau diweddarach yn eu cyd-destun. Mae'r rhain ar gyfer plant 5, 8 ac 11 ac 12 oed, ac i rieni plant 10 oed.

4.2 Mae Tabl 4.1 yn amlinellu'r ystadegau disgrifiadol ar gyfer dulliau rhianta a'r defnydd o gosbau corfforol. Mae hyn yn cynnwys cymedr, amrywiad (gwyriad safonol), a chanran y rhieni sy'n perthyn i bob grŵp o ddull rhianta (eu dull rhianta mwyaf blaenllaw[39]). Mae'r gwerth canrannol ar gyfer defnyddio cosb gorfforol yn cynrychioli cyfran y rhieni a ddywedodd eu bod wedi defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol o leiaf 'nawr ac yn y man'. Mae'r canfyddiadau wedi'u grwpio yn ôl ardal (y DU gyfan a Chymru'n unig) ac ar gyfartaledd dros 2011 a 2022.

4.3 Er bod y sgôr gymedrig ar gyfer dulliau rhianta yn uwch ar gyfer rhieni awdurdodol a goddefgar/llac, o'i gymharu â dulliau eraill, dull rhianta mwyaf blaenllaw y rhan fwyaf o rieni oedd goddefgar/llac neu anghyfrannog. Roedd hyn yn wir am Gymru a'r DU yn ehangach.

4.4 Dywedodd 32 y cant o rieni yng Nghymru eu bod wedi defnyddio rhyw fath o gosb gorfforol, tra bod y ffigur hwn yn 37 y cant ar gyfer y DU yn ehangach.

**Tabl 4.1: dulliau ac arferion rhianta rhwng 2011 a 2022 ar gyfer Cymru a'r DU**

| | Cymru | | | y DU | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cymedr | Gwyriad Safonol | % y rhieni | Cymedr (Gwyriad Safonol) | Gwyriad Safonol | % y rhieni |
| **Awdurdodus** | 1.91 | 0.48 | 14.18 | 1.94 | 0.45 | 17.68 |
| **Goddefgar** | 3.90 | 0.47 | 23.64 | 3.85 | 0.47 | 22.08 |
| **Anghyfrannog** | 2.01 | 0.52 | 23.13 | 1.99 | 0.48 | 23.93 |
| **Awdurdodol** | 4.10 | 0.54 | 18.66 | 4.06 | 0.55 | 18.26 |
| **Diwahaniaeth** | | | 20.40 | | | 18.05 |
| **Defnyddio Cosb Gorfforol** | 1.22 | 0.46 | 32.16 | 1.24 | 0.45 | 37.10 |


Sylwer: Maint samplau Cymru = 459 a 468; Maint samplau'r DU = 7,629 a 7,795. Gwerthoedd lleiaf = 1; gwerthoedd uchaf = 5. Adroddwyd pob newidyn pan oedd y plentyn yn 10 oed. Diwahaniaeth = dim dull rhianta yn fwy blaenllaw na'i gilydd.

4.5 Mae Ffigur 4.1 yn rhannu'r defnydd o gosb gorfforol a adroddwyd yn ymddygiadau unigol, yn ystod 2011 a 2022, yng Nghymru ac yn y DU yn ehangach. Mae'r patrymau'n debyg ar gyfer Cymru yn unig a'r DU.

4.6 Mae'n amlwg, o'r rhai sy'n dweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol, bod rhieni'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud hynny 'nawr ac yn y man'.

4.7 O ran y mathau o gosbau corfforol, cydio oedd yn cael ei nodi amlaf, ac yna cyfeiriadau penodol at ddefnyddio cosb gorfforol, yna rhoi chwip-din, a slapio.

**Ffigur 4.1: pa mor rheolaidd y defnyddir y gwahanol fathau o gosbau corfforol a adroddwyd o 2011-2022, yng Nghymru a'r DU**




Sylwer: Maint sampl Cymru = 468; Maint sampl y DU = 7,795.

Canlyniadau Datblygiad Plant – Ystadegau Disgrifiadol, Mewnoli, Allanoli, Problemau gyda Chyfoedion ac Ymddygiad Cymdeithasol-fuddiol

4.8 Mae Ffigurau 4.2 a 4.4 yn cynrychioli amcangyfrifon poblogaeth o ganlyniadau datblygiad plant o safbwynt problemau mewnoli, problemau allanoli, a phroblemau gyda chyfoedion, yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno ar gyfer y DU gyfan ac ar gyfer Cymru yn unig. Mae'r canfyddiadau ar gyfartaledd dros y cyfnod 2011 a 2022, ac yn cynrychioli amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran, ac nid y newid oddi mewn i unigolion dros amser.[40]


4.9 Unwaith eto, mae lefelau'n gymharol debyg rhwng Cymru a'r DU yn gyffredinol.

4.10 Ar gyfer pob canlyniad datblygiad plant, mae cyfran yr unigolion sydd â lefelau uchel neu uchel iawn ychydig yn uwch ar gyfer plant hŷn, o'i gymharu â'r plant 5 oed.

4.11 Yn yr un modd, mae cyfran ychydig yn uwch o blant 11 ac 12 oed yn nodi lefelau 'rhywfaint yn uwch' o broblemau gyda chyfoedion, ac yn enwedig problemau allanoli, o'i gymharu â grwpiau oedran iau. Mae hyn hefyd yn wir am broblemau mewnoli yn y DU, ond mae'r patrwm ychydig yn wahanol ar gyfer sampl Cymru'n


unig, gyda chyfran is o blant 11 ac 12 oed â phroblemau allanoli sydd ‘rhywfaint yn uwch’ o’u cymharu â’r plant 8 oed.

**Ffigur 4.2: canlyniadau mewnoli plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a’r DU**





Sylwer. Maint samplau Cymru = 313 a 410; Maint samplau’r DU = 5,920 a 6,197.

**Ffigur 4.3: canlyniadau allanoli plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU**




Sylwer. Maint samplau Cymru = 313 a 413; Maint samplau'r DU = 5,924 a 6,202.

**Ffigur 4.4: canlyniadau problemau gyda chyfoedion plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU**





Sylwer. Maint samplau Cymru = 314 a 411; Maint samplau'r DU = 5,952 a 6,222.

4.12 Fel y dengys Ffigur 4.5, roedd amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer ymddygiad cymdeithasol-fuddiol hefyd yn debyg ar gyfer Cymru a'r DU.

4.13 Mae cyfran lai o blant 11 ac 12 oed wedi'u categoreiddio yn isel neu'n isel iawn o ran ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, neu ychydig yn is o ran ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, o'i gymharu â grwpiau oedran iau.

**Ffigur 4.5: canlyniadau cymdeithasol-fuddiol plant yn 5, 8, ac 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, yng Nghymru a'r DU**




Sylwer. Maint samplau Cymru = 314 a 414; Maint samplau'r DU = 5,956 a 6,249.

### Hunan-barch a gwrthdaro â rhieni

4.14 Mae Tabl 4.2 yn amlinellu lefelau hunan-gofnodedig ar gyfer hunan-barch a gwrthdaro â mamau a thadau ar gyfer pobl ifanc 11 ac 12 oed yn y DU a Chymru yn benodol.

4.15 Roedd gan 4 y cant o blant yng Nghymru lefel isel o hunan-barch, tra bod y ffigur hwn yn 8 y cant ar draws y DU gyfan.

4.16 Roedd y ffigurau gwrthdaro yn debyg ar gyfer Cymru a'r DU. Dywedodd mwy na hanner y plant 11 ac 12 oed mai 'prin iawn' eu bod yn dadlau gyda'u mamau neu eu tadau. Dywedodd cyfran lai eu bod yn dadlau gyda'u mamau (22 y cant ar gyfer

Cymru, 23 y cant ar gyfer y DU) a'u tadau (19 y cant ar gyfer Cymru, 18 y cant ar gyfer y DU) 'lai nag unwaith yr wythnos'. Roedd y ffigur hwn yn llai eto ar gyfer y rhai a oedd yn dweud bod gwrthdaro'n digwydd fwy nag unwaith yr wythnos, ac yn llai fyth ar gyfer y rhai oedd yn dweud bod yna wrthdaro bron bob dydd - tua 10 y cant ar gyfer mamau, ac yn agosach at 5 y cant ar gyfer tadau.

**Tabl 4.2: canlyniadau gwrthdaro a hunan-barch yn 11 ac 12 oed, rhwng 2011 a 2022, ar gyfer Cymru a'r DU**

| Canlyniad i Blant | | Cymru | y DU |
|---|---|---|---|
| **Hunan-barch** | Isel | 3.86% | 8.32% |
| | Normal | 96.14% | 91.68% |
| **Dadlau gyda'u Mam** | Bron bob dydd | 9.05% | 9.64% |
| | Mwy nag unwaith yr wythnos | 13.02% | 15.80% |
| | Llai nag unwaith yr wythnos | 21.95% | 22.94% |
| | Prin iawn | 55.52% | 50.97% |
| | Amherthnasol | 0.46% | 0.64% |
| **Dadlau gyda'u Tad** | Bron bob dydd | 5.10% | 6.26% |
| | Mwy nag unwaith yr wythnos | 9.59% | 10.36% |

Sylwer. Maint samplau Cymru = 220 ar gyfer hunan-barch; 315 ar gyfer newidynnau gwrthdaro. Maint samplau y DU = 4,539 ar gyfer hunan-barch; 5,979 ar gyfer newidynnau gwrthdaro.

## Cysylltiadau rhwng dulliau rhianta a chanlyniadau datblygiad plant

4.17 Er mwyn archwilio’r cysylltiad rhwng y dulliau rhianta mwyaf blaenllaw a chanlyniadau datblygiad plant yn 11 ac 12 oed, lluniwyd model ystadegol ar gyfer y canlyniadau datblygiad plant canlynol: allanoli problemau, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â mamau a thadau. Dewiswyd y canlyniadau hyn ar sail y cydberthynas rhwng rhianta a newidynnau canlyniadau i blant. Gellir gweld y rhain yn Atodiad Dd.

4.18 Cafodd y newidynnau canlynol eu cynnwys fel rheolydd ym mhob model: incwm aelwydydd, diweithdra yn y cartref, iechyd meddwl rhieni, cyflyrau iechyd hirdymor y rhieni, a nifer/safle brodyr a chwiorydd mewn perthynas â brodyr a chwiorydd eraill[41]. Mae hyn yn amlygu’r berthynas rhwng dulliau rhianta’r fam neu’r tad a’r canlyniadau i’r plant yn annibynnol ar y ffactorau hyn.

4.19 Aseswyd hefyd a oedd y gwahaniaethau yn y berthynas rhwng dulliau rhianta a’r canlyniadau i blant yn amrywio yn ôl gwlad, grŵp ethnig, rhyw a bennwyd ar adeg geni’r plentyn, statws perthynas y rhiant, neu niwrowahaniaeth y plentyn.

### Crynodeb o'r canfyddiadau

4.20 Mae Tabl 4.3 isod yn crynhoi'r gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yng nghanlyniadau datblygiad plant rhwng y dulliau rhianta. Mae’r gwahaniaethau'n cael eu hadrodd ar gyfer mamau a thadau. Trafodir y canfyddiadau hyn ymhellach yn y testun isod.

**Tabl 4.3: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng dulliau rhianta ar gyfer canlyniadau datblygiad plant a adroddwyd 11 ac 12 oed**

| Canlyniad Datblygiad Plant | Gwahaniaethau Arwyddocaol Rhwng Categorïau Dulliau Rhianta | |
|---|---|---|
| | **Mamau** | **Tadau** |
| **Allanoli** | Awdurdodus/Anghyfrannog > Goddefgar*<br>Awdurdodus/Anghyfrannog > Awdurdodol* | Awdurdodus/ > Goddefgar* |
| **Ymddygiad Cymdeithasol-fuddiol** | Awdurdodol > Anghyfrannog* | - |
| **Gwrthdaro â Rhieni** | Awdurdodus > Awdurdodol/Goddefgar*<br>Anghyfrannog > Awdurdodol/Goddefgar* | Awdurdodus > Awdurdodol/Go |

Sylwer: Maint y sampl = 1,998 ar gyfer mamau; 1,401 ar gyfer tadau.

Allanoli

4.21 **Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y lefelau allanoli ar sail y dull rhianta mwyaf blaenllaw a adroddwyd.** Roedd maint yr effaith ar gyfer mamau yn fach i ganolig, a maint yr effaith ar gyfer tadau yn fach, sy'n awgrymu bod dull rhianta mwyaf blaenllaw'r fam yn cael effaith gryfach ar broblemau allanoli plant ar y cyfan, o'i gymharu â thadau.

4.22 Roedd gan famau yn y categori awdurdodus, neu lawdrwm, blant â phroblemau allanoli sylweddol uwch o'u cymharu â mamau awdurdodol a goddefgar. Roedd gan blant â thadau awdurdodus lefelau allanoli sylweddol uwch na rhai â thadau goddefgar.

4.23 Mae hyn yn cyd-fynd ag adolygiad systematig diweddar, a ganfu fod cysylltiadau cryf rhwng rhianta awdurdodus a phroblemau allanoli uwch, o'i gymharu â dulliau awdurdodol a goddefgar[42].

4.24 Roedd gan famau anghyfrannog hefyd blant â lefelau sylweddol uwch o broblemau allanoli o'i gymharu â mamau goddefgar ac awdurdodol, ond nid oedd hyn yn wir am dadau.

4.25 Mae ymchwil blaenorol yn cefnogi hyn, gyda phlant â mamau anghyfrannog yn profi lefelau uwch o broblemau allanoli na phlant â thadau anghyfrannog[43].

### Ymddygiad cymdeithasol-fuddiol

4.26 **Roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn yr ymddygiad cymdeithasol-fuddiol ar sail y dull rhianta mwyaf blaenllaw a adroddwyd ar gyfer mamau yn unig**, a maint yr effaith yn ganolig.

4.27 Roedd gan famau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai awdurdodol blant â lefelau ystadegol sylweddol uwch o ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, o'u cymharu â mamau sydd wedi'u categoreiddio fel rhai anghyfrannog.

4.28 Gallai'r lefelau uwch o resymu ac adborth sy'n gysylltiedig â rhianta awdurdodol o'i gymharu â rhianta anghyfrannog annog y datblygiad cymdeithasol-fuddiol hwn[44].

4.29 Mae'n llai amlwg pam mai dim ond yn achos y mamau yr oedd yr effaith hon i'w gweld, ond mae ymchwil yn awgrymu bod cydberthynas rhwng anghysondeb gan famau, ond nid tadau, a lefelau is o sgiliau addasu ymysg plant[45]. Er nad yw'n agwedd ar rianta anghyfrannog mewn gwirionedd, mae'n debygol bod rhieni anghyfrannog yn llai cyson yn eu hymagwedd na'r rhai sy'n mabwysiadu dull awdurdodol, oherwydd y lefel uchel o resymu a gosod ffiniau clir sy'n nodweddiadol o'r dull awdurdodol.

### Gwrthdaro â mamau a thadau

4.30 **Roedd dulliau rhianta mamau yn cael effaith arwyddocaol ar y tebygolrwydd y byddai plant 11-12 oed yn dadlau gyda'u mamau. Roedd yr un peth yn wir ar gyfer y tadau.**

4.31 Roedd plant y mamau awdurdodus fwy na dwywaith yn fwy tebygol o adrodd am wrthdaro o’u cymharu â’r rhai â mamau awdurdodol neu oddefgar. Roedd yr un peth yn wir ar gyfer y tadau, ond roedd y tebygolrwydd ychydig yn llai amlwg (rhwng 1.5 a dwywaith yn fwy tebygol).

4.32 Roedd plant y mamau anghyfrannog hefyd ddwywaith yn fwy tebygol o adrodd am wrthdaro o’u cymharu â’r rhai â mamau awdurdodol neu oddefgar/llac.

4.33 Nid yw'n syndod bod y dull awdurdodus/llawdrwm mwy gwrthdrawol yn gysylltiedig â lefelau uwch o wrthdaro a adroddir rhwng plant a rhieni o’i gymharu â dulliau awdurdodol neu oddefgar/llac. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil cynharach sy'n dangos cynnydd mewn gwrthdaro sy'n gysylltiedig â'r dull hwn, yn enwedig yn 11 ac 12 oed wrth i blant ddatblygu ymdeimlad o’u gallu eu hunain. [46]

4.34 Eto, gallai’r cynnydd rhyw-benodol mewn gwrthdaro ar gyfer plant â mamau anghyfrannog, o’u cymharu â’r rhai â mamau awdurdodol neu oddefgar, fod yn anuniongyrchol gysylltiedig ag effeithiau negyddol anghysondebau ar ran mamau ar ddatblygiad plant.

Amrywiadau rhwng y grwpiau

4.35 **Ar gyfer pob canlyniad datblygiad plant, ni**d oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn effaith dulliau magu plant y fam neu’r tad ar sail gwlad, ethnigrwydd y plentyn, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, neu statws perthynas[47]. Mae hyn yn awgrymu bod y grwpiau’n gymharol gyson â’i gilydd o ran y berthynas rhwng y dull rhianta mwyaf blaenllaw a phroblemau allanoli mewn plant, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â mamau a thadau.

### Cysylltiadau rhwng cosbau corfforol a chanlyniadau datblygiad plant

4.36 Er mwyn archwilio’r cysylltiad rhwng cosbi corfforol a datblygiad plant, lluniwyd modelau ar gyfer yr un canlyniadau. Roedd y modelau’n cynnwys yr un newidynnau rheoli ag uchod, gan dynnu sylw eto at effaith unigryw gosb corfforol gan rieni ar ganlyniadau i blant[48].

Allanoli

4.37 **Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng lefelau uwch o gosbi corfforol a adroddwyd a lefelau uwch o broblemau allanoli i blant.** Roedd maint effaith canolig ar gyfer mamau, ond bach iawn oedd maint yr effaith ar gyfer tadau. Oherwydd hyn, archwiliwyd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau ar gyfer mamau yn unig.


4.38 Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth sy'n awgrymu bod cosb gorfforol gan famau, ond nid gan dadau, yn arwain at gynnydd mewn ymddygiad ymosodol yn gynnar yn natblygiad plentyn – sy'n cael ei esbonio trwy batrwm cyffredinol o lai o gyfranogiad gan dadau yn y broses o feithrin a disgyblu plant [49]. Mae hyn yn golygu bod mamau yn ymwneud mwy â'r gwaith o fodelu a chaniatáu rhai mathau o ymddygiad - gan arwain at gynnydd yn nylanwad cymharol cosb gorfforol gan fam ar anawsterau allanoli i blant yn dilyn hynny. Fodd bynnag, mae ymchwil mwy diweddar yn tynnu sylw at rôl gynyddol y tadau wrth feithrin a magu plant, a gallai'r effaith wahaniaethol hon leihau dros amser[50].

4.39 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol o ran effaith cosb gorfforol gan famau ar broblemau allanoli yn ôl gwlad, statws perthynas, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, neu niwrowahaniaeth plant. Mae hyn yn awgrymu bod effaith cosb gorfforol gan famau ar broblemau allanoli yn gymharol gyson ar draws y grwpiau hyn.

4.40 Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 4.6, **roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y berthynas rhwng cosb gorfforol gan famau a phroblemau allanoli ar sail grŵp ethnig hunan-gofnodedig.**

4.41 Roedd perthynas gryfach rhwng cosb gorfforol gan famau a phroblemau allanoli mewn plant ar gyfer plant o'r grwpiau ethnig cymysg neu luosog. Roedd y berthynas yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn debyg rhwng plant Gwyn a phlant Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd, ond roedd tuedd fymryn yn *negyddol* ar gyfer plant Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig.

**Ffigur 4.6: Y Cysylltiad Rhwng Defnydd Mamau o Gosbau Corfforol a Phroblemau Allanoli Plant, yn ôl Grŵp Ethnig**




4.42 Mae hyn yn cyd-fynd ag ymchwil sy'n awgrymu y gall gwahanol normau ar gyfer cosbi corfforol rhwng grwpiau diwylliannol neu ethnig newid y berthynas rhwng cosbi corfforol ac ymddygiadau allanoli plant[51]. Fodd bynnag, mae llawer o'r gwaith ymchwil hwn wedi canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng plant o gefndiroedd ethnig Gwyn a Du, ac nid yw'n glir pam fod yr effaith ar ei chryfaf ar gyfer plant o grwpiau ethnig cymysg a lluosog, ac ar ei gwannaf ar gyfer grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig, yn benodol.


Ymddygiad cymdeithasol-fuddiol

4.43 **Roedd cysylltiad arwyddocaol rhwng lefel uwch o gosbi corfforol a adroddwyd gan famau a lefelau is o ymddygiad cymdeithasol-fuddiol mewn blant,** gyda maint yr effaith yn ganolig. Nid oedd cysylltiad arwyddocaol rhwng cosb gorfforol gan dadau ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol.

4.44 Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol yn y berthynas rhwng cosb gorfforol gan famau ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol plant ar sail gwlad, grŵp ethnig, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, neu niwrowahaniaeth plant.

4.45 Fodd bynnag, **roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y berthynas rhwng cosb gorfforol gan famau sengl a mamau nad ydynt yn sengl ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol a gofnodwyd.** Fel y dengys Ffigur 4.7, roedd dylanwad cosbi corfforol ar ymddygiad cymdeithasol-fuddiol yn gryfach ar gyfer mamau sengl nag ar gyfer mamau nad ydynt yn famau sengl.

**Ffigur 4.7: y cysylltiad rhwng defnydd mamau o gosbau corfforol a phroblemau allanoli plant, yn ôl statws perthynas**




4.46 Er nad yw wedi'i archwilio'n benodol yn yr ymchwil cyfredol, gellid egluro hyn drwy'r effaith 'glustogi' o gael rhiant arall yn y cartref, gan wrthbwyso'n rhannol rai o effeithiau negyddol cosbi corfforol. Fodd bynnag, mae'n debygol mai dim ond os nad yw'r ail riant yn cosbi'r plentyn yn gorfforol y byddai effaith y 'clustogi' hwn yn berthnasol, neu o leiaf eu bod yn gwneud hynny'n llai rheolaidd. Os yw'r ail riant hefyd yn cosbi'r plentyn yn gorfforol, gallai hyn fwyhau unrhyw effeithiau negyddol ar ddatblygiad.

4.47 Ar y llaw arall, gan fod tystiolaeth yn awgrymu perthynas agosach rhwng y fam a'r plentyn ar aelwydydd un rhiant[52], gallai effaith cosbi corfforol ar ymddygiad cymdeithasol-fuddiol fod yn amlwg iawn.


Gwrthdaro

4.48 Roedd **cynnydd sylweddol yn y tebygolrwydd y byddai plant yn adrodd am wrthdaro â'u rhieni wrth i lefelau cosbau corfforol a adroddwyd gynyddu, a hynny ar gyfer mamau a thadau.** Fel y nodwyd, nid yw hyn yn syndod o ystyried y modelu ar ymddygiadau mwy gwrthdrawol.

4.49 Nid oedd y berthynas hon yn amrywio yn ôl gwlad, statws perthynas, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, na niwrowahaniaeth y plentyn, gan awgrymu bod y grwpiau'n gymharol gyson â'i gilydd.

4.50 Fodd bynnag, **roedd y berthynas rhwng cosb gorfforol a adroddwyd gan dadau a'r tebygolrwydd y byddai plant yn adrodd am wrthdaro â'u tadau yn amrywio yn ôl grŵp ethnig.** Fel y dengys Ffigur 4.8, er bod cydberthynas rhwng cynnydd yn lefelau'r cosbi corfforol a thebygolrwydd uwch o wrthdaro a adroddwyd ar gyfer plant o gefndiroedd ethnig Gwyn neu gymysg/lluosog, roedd y gwrthwyneb yn wir am blant o gefndiroedd ethnig Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd, ac Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig.

**Ffigur 4.8: y cysylltiad rhwng defnydd tadau o gosbau corfforol a gwrthdaro â thadau a adroddwyd gan blant, yn ôl grŵp ethnig**




4.51 Eto, gellir mentro cysylltu hyn gyda'r gwahaniaethau cyffredinol yn y normau rhwng grwpiau ethnig, o ran defnyddio cosb gorfforol. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio ymhellach i hyn, ac nid yw'n glir pam fod gwahaniaeth rhwng y grwpiau ethnig o ran effaith cosb gorfforol ar gyfer y tadau, ond nid ar gyfer y mamau.


### Newidiadau i ddulliau rhianta rhwng 2012 a 2022, yn y DU a Chymru

Newid cyffredinol dros amser yn y DU ac yng Nghymru – ystadegau disgrifiadol

4.52 Bu ychydig o newid yn y dulliau rhianta mwyaf blaenllaw a fabwysiadwyd rhwng 2012 a 2022. Yn y DU, bu cynnydd cyson yn nifer y rhieni oedd yn defnyddio dull rhianta goddefgar yn bennaf, gyda chynnydd mwy amlwg rhwng 2018 a 2020 a 2020-2022. Roedd gostyngiad cyson hefyd yn nifer y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn awdurdodus. Roedd dulliau anghyfrannog ac awdurdodol yn parhau i fod yn gymharol gyson.

4.53 Nid yw'r patrymau mor glir ar gyfer Cymru'n unig, ond ceir gostyngiad sylweddol yng nghanran y rhieni y mae eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn awdurdodus rhwng 2018 a 2020 a 2020 a 2022, gyda lefelau'n disgyn yn is na'r rhai a adroddwyd ar unrhyw adeg arall. Dylid bod yn ofalus wrth drafod disgrifiadau ar gyfer Cymru'n unig oherwydd maint bach y samplau.

**Ffigur 4.9: newidiadau yn y dulliau rhianta mwyaf blaenllaw dros amser ar gyfer y DU a Chymru**




Sylwer. Maint samplau y DU (ar gyfer pob grŵp blwyddyn) = 2,116; 2028; 2167; 1772; 1325. Maint samplau Cymru = 46; 38; 47; 40; 33.

Newid cyffredinol dros amser yn y DU ac yng Nghymru – dadansoddiad ystadegol

4.54 Cafodd newidiadau ym mhob dull rhianta eu dadansoddi'n ystadegol yn unigol, o ran cyfran y rhieni a gafodd eu categoreiddio ym mhob un o’r dulliau mwyaf blaenllaw, ar bob pwynt mewn amser.

4.55 Dim ond unwaith y cafodd pob rhiant ei gynnwys, er mwyn sicrhau annibyniaeth ystadegol. Fel uchod, gallai ymchwil yn y dyfodol roi cyfrif am unigolion sy’n newid eu dull rhianta trwy fodelau effeithiau cymysg.

4.56 Cynhaliwyd dadansoddiadau ar gyfer y DU gan gynnwys gwlad fel newidyn grwpio. Roedd hyn er mwyn gwneud y mwyaf o faint y sampl gan asesu unrhyw effeithiau ar wlad benodol.

4.57 Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn yr effeithiau rhwng y gwledydd a ddisgrifir isod.

4.58 Doedd dim newid ystadegol arwyddocaol yng nghyfran y rhieni awdurdodol neu anghyfrannog rhwng 2012 a 2022.

4.59 Roedd **gostyngiad ystadegol arwyddocaol yng nghyfran y rhieni awdurdodus rhwng 2012 a 2014 a 2014 a 2016, a rhwng 2018 a 2020 a 2020 a 2022.**

4.60 **Bu cynnydd sylweddol yng nghyfran y rhieni goddefgar rhwng 2012 a 2014 a 2016 a 2018, ac eto rhwng 2018 a 2020 a 2020 a 2022.**

4.61 Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn, dylid gwerthuso'r newidiadau hyn yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn gymysg, gydag ymchwil yn nodi newidiadau cadarnhaol a negyddol ym mherthynas rhieni a'u plant yn ystod y pandemig[53]. Mae'r canfyddiadau cyfredol yn cyfeirio'n fwy cadarn tuag yr agweddau cadarnhaol hyn, ond ni all hyn gael ei briodoli'n uniongyrchol i newidiadau teuluol yn ystod y pandemig.

4.62 Serch hynny, o ystyried effeithiau negyddol rhianta awdurdodus ar ganlyniadau datblygiad plant o'i gymharu â rhianta goddefgar, mae gan y newidiadau cyffredinol hyn i'r dull oblygiadau cadarnhaol.

Gwahaniaethau rhwng grwpiau ar draws y Deyrnas Unedig

4.63 **Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y ffordd y newidiodd y dulliau rhianta oedd fwyaf blaenllaw dros amser ar sail *unrhyw* un o'r newidynnau grwpio.** Mae hyn yn awgrymu nad oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth rhwng y grwpiau yn y ffordd y mae dulliau rhianta wedi newid dros amser.

4.64 Fodd bynnag, ar gyfer nifer o'r newidynnau grwpio, roedd **gwahaniaethau ystadegol sylweddol yn y tebygolrwydd *cyffredinol* o fabwysiadu pob un o'r dulliau rhianta.** Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno isod.


Mamau a thadau

4.65 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng mamau a thadau yn lefelau cyffredinol rhianta awdurdodus.

4.66 **Roedd tadau ddwywaith yn fwy tebygol na mamau o fod yn anghyfrannog, ac 1.2 gwaith yn fwy tebygol na mamau o fod yn oddefgar/llac. Ar y llaw arall, yn gyffredinol, roedd mamau 2.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn awdurdodol na thadau.**

4.67 Mae'r canfyddiadau hyn i'w gweld yn Ffigur 4.10.

**Ffigur 4.10: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl rhyw y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.68 Mae hyn yn ail gyd-destunoli'r lefelau cyffredinol a welir uchod, gyda'r lefelau uchel o rieni anghyfrannog yn bennaf oherwydd y lefelau uwch ar gyfer y tadau. Ond mae’n ymddangos mai rhianta awdurdodol yw’r dull mwyaf blaenllaw ymysg mamau.

4.69 O ystyried y canlyniadau ffafriol i blant o’i gymharu â’r rhianta anghyfrannog a awdurdodus a drafodwyd uchod, mae’r lefel uwch hon o rianta awdurdodol ymysg mamau yn gadarnhaol.

4.70 Fodd bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at broblem, sef bod y tebygolrwydd bod tadau’n mabwysiadu dull rhianta awdurdodol yn is, a bod llawer o’r ymchwil ar rianta a chanlyniadau i blant a wnaed yn y gorffennol wedi canolbwyntio’n bennaf ar famau.

Grŵp ethnig

4.71 Nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn y gyfran gyffredinol o rieni goddefgar/llac neu awdurdodol rhwng y grwpiau ethnig.


4.72 Fodd bynnag, **roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau o ran** lefelau cyffredinol rhianta awdurdodus a rhianta anghyfrannog.

4.73 Fel y dengys Ffigur 4.11, roedd rhieni o gefndiroedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig, ac o gefndiroedd Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd, rhwng 4 a 5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn llawdrwm/awdurdodus na'r rhai o gefndiroedd ethnig cymysg neu luosog.

4.74 Roedd rhieni o'r cefndiroedd hyn hefyd dros 1.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn llawdrwm/awdurdodus na'r rhai o gefndiroedd Gwyn. Roedd rhieni o gefndiroedd Gwyn 3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn llawdrwm/awdurdodus na rhieni o grwpiau ethnig cymysg neu luosog.

4.75 Yn olaf, roedd rhieni o gefndiroedd Gwyn ddwywaith yn fwy tebygol na rhieni o gefndiroedd Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd o fod yn anghyfrannog.

**Ffigur 4.11: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl grŵp ethnig, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.76 Mae'r canfyddiad hwn yn bwysig, gan ystyried y canlyniadau negyddol sy'n ymwneud â rhianta awdurdodus a rhianta anghyfrannog, o'u cymharu â dulliau eraill, ar draws pob grŵp.

### Incwm


4.77 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng grwpiau o ran cyfran y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn awdurdodus neu’n awdurdodol.

4.78 **Roedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y grwpiau incwm o ran lefelau cyffredinol rhianta goddefgar/llac a rhianta anghyfrannog.**

4.79 Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 4.12, roedd rhieni o'r grŵp incwm uwch ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn oddefgar/llac na rhieni o’r grwpiau incwm isel neu dlawd.  Yn gyffredinol, roedd rhieni o’r grŵp incwm canol hefyd 1.4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn oddefgar/llac o’u cymharu â’r rhai o’r grŵp incwm isel.

4.80 Yn yr un modd, roedd rhieni o bob grŵp incwm arall o leiaf ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhai anghyfrannog o’u cymharu â'r rhai o grwpiau incwm uwch. Roedd rhieni o’r grwpiau incwm isel hefyd 1.4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog o’u cymharu â’r rhai o’r grwpiau incwm canol.

**Ffigur 4.12: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl grŵp incwm, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.81 Mae hyn yn unol ag ymchwil cynharach sy'n dangos bod rhieni sy'n profi straen economaidd yn llai tebygol o deimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl fel rhiant ac yn llai tebygol o fod yn fodlon â'u dulliau rhianta – gan effeithio ar berthynas y rhiant a'r plentyn[54].

4.82 Mae'r canfyddiad hwn yn bwysig gan fod y canlyniadau datblygiadol, ar y cyfan, yn ffafriol ar gyfer y plant sydd â rhieni goddefgar o'u cymharu â rhieni anghyfrannog, ar draws y grwpiau incwm


Iechyd meddwl rhieni

4.83 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y rhieni a oedd yn mabwysiadu dulliau rhianta awdurdodus neu oddefgar.

4.84 Fel y dengys Ffigur 4.13, roedd rhieni â phroblemau iechyd meddwl hunan-gofnodedig 1.3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhai anghyfrannog, o'u cymharu â'r rheini heb broblemau iechyd meddwl.

4.85 Yn yr un modd, roedd rhieni *heb* broblemau iechyd meddwl hunan-gofnodedig 1.4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn rhieni awdurdodol.

**Ffigur 4.13: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl iechyd meddwl y rhiant, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.86 Mae hyn yn amlygu problemau iechyd meddwl fel rhwystr posibl i rianta awdurdodol, a’r canlyniadau ffafriol cysylltiedig, ac o bosibl yn ysgogi dull mwy anghyfrannog.


4.87 Yn wir, yn ôl adolygiad systematig diweddar mae problemau iechyd meddwl rhieni yn tueddu i symud rhianta tuag at strategaethau sy’n llai buddiol i ddatblygiad plant[55].

### Diweithdra

4.88 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn oddefgar neu'n awdurdodus, ar sail diweithdra.

4.89 Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 4.14, **roedd rhieni di-waith 1.8 gwaith yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog na'r rhai nad oeddent yn ddi-waith. Ar y llaw arall, roedd rhieni nad oeddent yn ddi-waith 1.8 gwaith yn fwy tebygol o fod yn awdurdodol na'r rheini a oedd yn ddi-waith.**

**Ffigur 4.14: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl diweithdra'r rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol**





4.90 Mae hyn yn tynnu sylw at ddiweithdra fel rhwystr pellach i rianta awdurdodol, ac yn ysgogi rhianta anghyfrannog.

Rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn

4.91 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn oddefgar, yn anghyfrannog, neu'n awdurdodol, ar sail y rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn.

4.92 Fodd bynnag, yn gyffredinol, **roedd bechgyn 1.3 gwaith yn fwy tebygol o fod â rhieni sy'n cael eu categoreiddio fel rhai llawdrwm/awdurdodus.** Mae Ffigur 4.15 yn dangos hyn.

**Ffigur 4.15: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.93 Gallai'r canfyddiad hwn fod yn gysylltiedig â gwahaniaethau mewn rolau rhywedd, gyda bechgyn yn fwy tebygol na merched o dderbyn rhianta llawdrwm/awdurdodus, yn enwedig pan fo rhieni'n dweud eu bod yn credu'n gryfach mewn stereoteipiau ar sail rhywedd[56]

4.94 Mae gwaith ymchwil arall wedi amlygu'r berthynas ddeugyfeiriol rhwng ymddygiad heriol a rhianta llymach fel achos posibl lefelau uwch o rianta llawdrwm/awdurdodus ar gyfer bechgyn[57].

### Oedran y rhieni

4.95 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn awdurdodol, ar sail oedran y rhieni.


4.96 Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 4.16, **roedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y grwpiau oedran o ran y tebygolrwydd y byddai rhieni'n mabwysiadu dulliau awdurdodus, goddefgar ac anghyfrannog.**

4.97 Roedd rhieni 31 ac 40 oed, neu 41 ac 50 oed o leiaf ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhai llawdrwm/awdurdodus o'u cymharu â rhieni dros 51 oed.

4.98 I'r gwrthwyneb, roedd rhieni dros 51 oed ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn oddefgar o'u cymharu â'r rhai 31 ac 40 oed a'r rhai 30 oed neu'n iau. Roedd rhieni 41 ac 50 oed hefyd 1.3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn oddefgar na rhieni 31 ac 40 oed.

4.99 Roedd y rhai dan 30 oed 1.3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog o'u cymharu â'r rhai 41 ac 50 oed.

**Ffigur 4.16:y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl oedran y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.100 Mae’r patrwm cyffredinol sy’n tueddu tuag at ddulliau rhianta mwy ffafriol ar gyfer rhieni hŷn o’u cymharu â rhieni iau yn cyd-fynd ag adroddiadau gan rieni hŷn, sy’n honni eu bod wedi’u paratoi’n well yn emosiynol ar gyfer magu plant nag y byddent wedi bod yn gynharach yn eu bywydau[58].

4.101 Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel y rhianta awdurdodol ar gyfer rhieni dros 50 oed.

Safbwyntiau gwleidyddol


4.102 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyfran y rhieni yr oedd eu dull rhianta mwyaf blaenllaw yn awdurdodus neu’n oddefgar, ar sail tueddiadau gwleidyddol y rhieni.

4.103 Fodd bynnag, **roedd gwahaniaeth mewn rhianta awdurdodol a goddefgar ar sail tueddiadau gwleidyddol.**

4.104 Roedd y rhai a oedd yn cefnogi'r pleidiau yn y canol yn 2.5 ac 3 gwaith yn llai tebygol o fod yn anghyfrannog, o'u cymharu â'r rhai â thueddiadau gwleidyddol adain chwith, adain dde, neu ddim o gwbl.

4.105 Ar y llaw arall, roedd rhieni â thueddiadau gwleidyddol yn y canol ddwywaith yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhai awdurdodol o'u cymharu â rhieni â thueddiadau gwleidyddol adain chwith neu adain dde.

**Ffigur 4.17: y dull rhianta mwyaf blaenllaw yn ôl gwleidyddiaeth y rhieni, gydag arwyddocâd ystadegol**




4.106 Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn lefelau unrhyw un o'r dulliau rhianta oedd fwyaf blaenllaw yn ôl statws perthynas y rhieni, cyflyrau iechyd hirdymor y rhieni, niwrowahanaeth y plentyn, neu amhariad corfforol y plentyn[59].


**Newidiadau o ran cosbi corfforol rhwng 2012 a 2022, yn y DU ac yng Nghymru**

Y defnydd cyffredinol o gosb gorfforol – ystadegau disgrifiadol

4.107 Bu gostyngiad cyson yn y defnydd o unrhyw fath o gosb gorfforol o leiaf 'nawr ac yn y man' rhwng 2012 a 2022 yn y DU ac yng Nghymru, Yr unig eithriad i'r patrwm

hwn oedd cynnydd yng Nghymru rhwng 2012 a 2014 a 2014 a 2016, cyn i'r lefelau ostwng eto, gan gyrraedd eu lefelau isaf yn 2020 a 2022. Dylid bod yn ofalus wrth drafod disgrifiadau ar gyfer Cymru'n unig oherwydd maint bach y samplau.

**Ffigur 4.18: canran o'r holl rieni sy'n dweud eu bod yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol, ar gyfer y DU a Chymru**




Sylwer. Maint samplau y DU (ar gyfer pob grŵp blwyddyn) = 2,116; 2028; 2167; 1772; 1325. Maint samplau Cymru = 46; 38; 47; 40; 33.

Y defnydd cyffredinol o gosb gorfforol – dadansoddiad ystadegol

4.108 Dadansoddwyd y newidiadau o ran cosbi corfforol yn nhermau cyfran y rhieni a ddywedodd eu bod yn defnyddio unrhyw fath o gosb gorfforol o leiaf 'nawr ac yn y man', ar bob pwynt mewn amser. Cynhaliwyd dadansoddiadau ar gyfer y DU gyfan gan gynnwys gwlad fel newidyn grwpio. Roedd hyn er mwyn gwneud y mwyaf o faint y sampl gan asesu unrhyw effeithiau oedd yn benodol i wlad.

4.109 Ni chafodd y broses gymedroli effaith arwyddocaol ar wlad fel newidyn, gan awgrymu bod yr effeithiau a ddisgrifir isod yn gymharol gyson.

4.110 Roedd **gostyngiad ystadegol arwyddocaol yn y cosbi corfforol a adroddwyd rhwng 2014 a 2016 a 2018 a 2020, ac eto rhwng 2018 a 2020 a 2020 a 2022.**

4.111 Er ei fod y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn, dylid gwerthuso'r newidiadau hyn yng nghyd-destun pandemig COVID-19. Mae'n ddiddorol bod y gostyngiad mwyaf dramatig yn lefelau'r cosbi corfforol a adroddwyd yn digwydd rhwng 2018 a 2020 a 2020 a 2022, gyda dyfodiad y pandemig yn 2020. Mae hyn yn syndod braidd, o ystyried y cynnydd mewn ystod o ffactorau risg hysbys ar gyfer cosbi corfforol megis problemau iechyd meddwl y rhieni, ynysigrwydd cymdeithasol, a gwrthdaro rhwng rhieni [60].

4.112 Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag adroddiad diweddar gan Adran Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd y DU[61], sy'n dangos gostyngiad tebyg mewn cosbi corfforol, er bod y lefelau cyffredinol ychydig yn uwch. Gall hyn fod oherwydd ystyriaeth i bob math o gosbau corfforol (cydio, slapio, smacio, neu ddefnydd penodol o gosb gorfforol) yn hytrach na chwestiwn unigol.

4.113 Mae'r canfyddiadau hefyd yn cyd-fynd, i raddau, â chanfyddiadau mwy diweddar adroddiad Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus 2024, lle'r oedd 23 y cant o rieni'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod angen smacio plentyn weithiau. Fodd bynnag, yn ôl yr adroddiad, dim ond 2 y cant o rieni a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol yn ystod y 12 mis blaenorol[62].

4.114 Er y gallai hyn adlewyrchu'n rhannol y gostyngiad sylweddol disgwyliedig mewn cosbi corfforol ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym yn 2022, gall geiriad mwy cyffredinol cwestiynau USoc, yn hytrach na nodi cyfnod penodol o amser ar gyfer yr ymatebion (e.e., 'y 12 mis diwethaf') hefyd egluro'r gwahaniaeth hwn yn rhannol. Bydd astudiaethau ymchwil dilynol yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y newid yn y gyfraith yn ddadlennol yn hyn o beth.

4.115 Serch hynny, mae gan y gostyngiad hwn yn y cosbi corfforol a adroddwyd oblygiadau cadarnhaol o ystyried y cysylltiadau negyddol â chanlyniadau datblygiad plant a drafodwyd uchod.

### Gwahaniaethau rhwng grwpiau ar draws y Deyrnas Unedig


4.116 **Nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn y ffordd y newidiodd y cosbi corfforol a adroddwyd dros amser ar sail *unrhyw* un o'r newidynnau grwpio.** Yn unol â hynny, nid oes tystiolaeth i ddangos gwahaniaeth rhwng y grwpiau o ran cyfradd y gostyngiad mewn cosbi corfforol dros amser.

4.117 Fodd bynnag, ar gyfer nifer o'r newidynnau grwpio, roedd **gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn nhebygolrwydd cyffredinol rhieni i ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol.** Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno isod.

#### Mamau a thadau

4.118 Fel y dengys Ffigur 4.19, **roedd tadau 1.5 gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol na mamau.**

**Ffigur 4.19: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol rhwng mamau a thadau**





4.119 Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau diweddar ynghylch agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddefnyddio cosb gorfforol ymysg tadau o'u cymharu â mamau, yng Nghymru.[63]

Grŵp ethnig

4.120 Fel y dengys Ffigur 4.20, **roedd rhieni o'r grwpiau ethnig Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribïaidd neu Affricanaidd 1.75 gwaith yn fwy tebygol o adrodd am gosb gorfforol o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau ethnig Gwyn.** Yn yr un modd, yn gyffredinol, **roedd rhieni o grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig 1.67 gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o'u cymharu â'r rhai o gefndiroedd Gwyn**. Er mai rhieni o'r grwpiau ethnig cymysg neu luosog oedd y lleiaf tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol, nid oedd y gwahaniaeth rhwng y grŵp hwn ac eraill yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 4.20: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl grŵp ethnig**




4.121 Mae gan y canfyddiad hwn oblygiadau pwysig yn sgil effeithiau negyddol cyffredinol cosbi corfforol ar ddatblygiad plant a drafodwyd uchod, ac mae'n ymddangos bod rhai grwpiau'n wynebu mwy o risg.


4.122 Fodd bynnag, dylid nodi hefyd nad oedd rhai cysylltiadau penodol, fel y cyswllt rhwng cosb gorfforol gan famau a phroblemau allanoli plant o grwpiau ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig, yn dangos yr un effeithiau negyddol â grwpiau eraill.

4.123 Gall ystyried yr effeithiau hyn sy'n benodol i'r grwpiau fod yn bwysig ar gyfer ymchwil ac ystyriaethau polisi yn y dyfodol.

Rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn

4.124 Fel y dengys Ffigur 4.21, roedd rhieni'n fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol ar gyfer plant a gafodd eu pennu'n wrywaidd ar adeg eu geni, o'u cymharu â'r rhai a gafodd eu pennu'n fenywaidd.

**Ffigur 4.21: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn**




4.125 Fel y nodwyd uchod, gallai'r canfyddiad hwn fod yn gysylltiedig â'r ffordd wahanol y caiff bechgyn a merched eu trin ar sail stereoteipiau rolau rhywedd[64], a/neu berthynas ddeugyfeiriol gydag ymddygiad heriol plant[65].


4.126 Mae gan y canfyddiad hwn oblygiadau pwysig o ystyried effeithiau negyddol cosb gorfforol ar ganlyniadau datblygiad plant, waeth beth fo'r rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn.

Oedran y rhieni

4.127 **Roedd gwahaniaeth arwyddocaol hefyd o ran cosbi corfforol ar sail oedran y rhieni.** Fel y dengys Ffigur 4.22, roedd rhieni 31 ac 40 oed 1.56 gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o'u cymharu â'r rhai 51 oed neu hŷn.

4.128 Roedd y tebygolrwydd hefyd yn uwch nag ar gyfer y rhai 30 oed neu iau, ond nid oedd y gwahaniaeth hwn yn ystadegol arwyddocaol. Yn yr un modd, roedd y rhai 41 ac 50 oed hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o'u cymharu â'r rhai 51 oed neu'n hŷn, a'r rhai 30 oed neu iau, ond nid oedd y cymariaethau hyn yn ystadegol arwyddocaol.

**Ffigur 4.22: y gwahaniaeth yn y tebygolrwydd o gosbi corfforol, yn ôl grŵp oedran y rhieni**




4.129 Fel uchod, gallai hyn fod yn gysylltiedig â chanfyddiad rhieni o'u parodrwydd emosiynol ar gyfer bod yn rhiant yn nes ymlaen yn eu bywydau[66] gan eu gwneud yn llai tebygol o ddefnyddio cosb gorfforol.

4.130 Fodd bynnag, mae'r canfyddiad hwn yn groes i'r agweddau a adroddwyd yng ngham 7 adroddiad Beaufort, gydag ymatebwyr dros 55 yn fwy na dwywaith yn fwy tebygol o gytuno bod angen smacio plentyn weithiau[67]. Gan fod y data hwn wedi'i gymryd o sampl gyffredinol o'r boblogaeth, yn hytrach na rhieni'n benodol, mae'n bosibl bod agweddau o fewn yr ystod oedran hon yn amrywio rhwng y rhai sydd â chyfrifoldebau rhiant/gofalu a'r rhai heb gyfrifoldebau rhiant/gofalu.

4.131 Serch hynny, mae'r canfyddiad hwn yn dangos bod plant i rieni 31 ac 40 oed yn wynebu mwy o risg o gael eu cosbi'n gorfforol ac o ddioddef yr effeithiau datblygiadol negyddol cysylltiedig.

4.132 Nid oedd gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn y tebygolrwydd cyffredinol o gosb gorfforol a adroddwyd ar sail grŵp incwm, iechyd meddwl neu gyflyrau

iechyd hirdymor eraill y rhieni, diweithdra ymhlith rhieni, statws perthynas y rhieni, tueddiadau gwleidyddol, niwrowahaniaeth y plentyn, neu amhariad corfforol y plentyn[68].

# 5. Casgliadau

## Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

### Rhianta a chanlyniadau datblygiad plant

#### Dulliau rhianta

5.1 Yn gyffredinol, mae gan ddulliau rhianta awdurdodus/llawdrwm ac anghyfrannog oblygiadau mwy negyddol ar gyfer problemau allanoli plant, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â rhieni, o’u cymharu â dulliau rhianta awdurdodol a goddefgar/llac.

5.2 Mae'r effeithiau hyn yn gryfach ac yn fwy cyson pan mai’r mamau sy'n mabwysiadu’r dull rhianta awdurdodus neu anghyfrannog, o'i gymharu â thadau.

5.3 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaeth yn yr effeithiau hyn ar sail gwlad, ethnigrwydd y plentyn, rhyw a bennwyd ar adeg geni’r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, na statws perthynas y rhiant.

#### Cosb gorfforol

5.4 Yn gyffredinol, ceir cydberthynas rhwng lefelau uwch o gosbi corfforol a adroddwyd a chanlyniadau gwaeth o ran datblygiad plant.

5.5 Ar gyfer problemau allanoli ac ymddygiad gymdeithasol-fuddiol, dim ond yng nghyswllt mamau roedd yr effaith hon yn arwyddocaol. Fodd bynnag, roedd cydberthynas rhwng cosbi corfforol a mwy o wrthdaro â rhieni a adroddwyd gan blant, ar gyfer mamau a thadau.

5.6 Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod gwahaniaeth yn yr effeithiau hyn ar sail gwlad, rhyw a bennwyd ar adeg geni’r plentyn, neu niwrowahaniaeth y plentyn.

5.7 Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth yn y berthynas rhwng cosb gorfforol gan famau a phroblemau allanoli plentyn ar sail grŵp ethnig. Yn benodol, roedd yr effaith ar broblemau allanoli plant ar ei gryfaf ymysg plant o gefndiroedd ethnig cymysg neu luosog, ac ar ei wannaf ymysg y rhai o gefndiroedd ethnig Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, neu Asiaidd Cymreig.

5.8 Ar ben hynny, roedd y berthynas negyddol rhwng cosb gorfforol gan famau ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol plant yn gryfach ar gyfer mamau sengl, o'i gymharu â mamau nad ydynt yn sengl.

5.9 Yn olaf, roedd cosb gorfforol a adroddwyd gan dadau yn cael effaith negyddol gryfach ar wrthdaro a adroddwyd gan blant gyda'u tadau yn achos plant o grwpiau ethnig Gwyn neu gymysg/lluosog, o'u cymharu â'r rhai o grwpiau ethnig Du neu Asiaidd. Ar gyfer y 2 grŵp olaf, roedd cydberthynas rhwng tebygolrwydd uwch o gosb gorfforol a llai o wrthdaro a adroddwyd.

## Newidiadau mewn rhianta dros amser a'r gwahaniaethau rhwng grwpiau

### Dulliau rhianta

5.10 Bu gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y rhieni sy'n rhianta'n llawdrwm/awdurdodus, a chynnydd yn nifer y rhieni sy'n rhianta'n oddefgar/llac, rhwng 2012 a 2022.

5.11 Nid oedd cyfradd y newid dros amser yn amrywio yn ôl gwlad, rhyw y rhieni, oedran y rhieni, grŵp incwm y rhieni, iechyd meddwl neu gorfforol y rhieni, diweithdra ymhlith y rhieni, statws perthynas y rhieni, gwleidyddiaeth y rhieni, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, neu amhariad corfforol y plentyn.

5.12 Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau yng nghyfrannau cyffredinol y dulliau rhianta rhwng y grwpiau.

5.13 Roedd tadau'n fwy tebygol o fod yn anghyfrannog neu'n oddefgar/llac, ond roedd mamau yn fwy tebygol o fod yn awdurdodol.

5.14 Yn gyffredinol, roedd rhieni o'r grwpiau ethnig Asiaidd neu Ddu yn fwy tebygol o fod yn llawdrwm/awdurdodus o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau Gwyn neu gymysg/lluosog. Ar y llaw arall, roedd rhieni o gefndiroedd Gwyn yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog na'r rhai o gefndiroedd ethnig Du.

5.15 Yn gyffredinol, roedd rhieni o'r grwpiau incwm uwch yn fwy tebygol o fod yn oddefgar/llac o'u cymharu â'r rhai o'r grwpiau incwm is. Roedd y gwrthwyneb yn

wir ar gyfer rhianta anghyfrannog, gyda'r rhai o’r grwpiau incwm is yn fwy tebygol yn gyffredinol o berthyn i'r categori hwn na'r rhai o’r grwpiau incwm uwch.

5.16 Roedd rhieni oedd yn dweud bod ganddynt broblemau iechyd meddwl yn fwy tebygol na'r rhai heb broblemau iechyd meddwl o fod yn anghyfrannog, ond yn llai tebygol o rianta ag awdurdod.

5.17 Yn yr un modd, roedd rhieni di-waith yn fwy tebygol o fod yn anghyfrannog, ac yn llai tebygol o rianta ag awdurdod na rhieni nad oeddent yn ddi-waith.

5.18 Roedd rhieni'n fwy tebygol o fod yn llawdrwm/awdurdodus gyda bechgyn, o’u cymharu â merched.

5.19 Yn gyffredinol, roedd rhieni yn y grwpiau oedran hŷn yn fwy tebygol o gael eu categoreiddio fel rhieni goddefgar, ac yn llai tebygol o fod yn awdurdodus neu’n anghyfrannog, o’u cymharu â rhieni iau. Fodd bynnag, roedd ambell i eithriad i'r patrwm hwn.

5.20 Yn olaf, roedd rhieni â thueddiadau gwleidyddol yn y canol yn fwy tebygol o fod yn oddefgar, ac yn llai tebygol o fod yn anghyfrannog, o'u cymharu â'r rheini â thueddiadau gwleidyddol adain chwith, adain dde, neu ddim o gwbl.

### Cosb gorfforol

5.21 Roedd gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o gosbi corfforol a adroddwyd gan rieni rhwng 2012 a 2022.

5.22 Nid oedd cyfradd y newid dros amser yn amrywio yn ôl gwlad, rhyw y rhieni, oedran y rhieni, grŵp incwm y rhieni, iechyd meddwl neu gorfforol y rhieni, diweithdra ymhlith y rhieni, statws perthynas y rhieni, gwleidyddiaeth y rhieni, rhyw a bennwyd ar adeg geni'r plentyn, niwrowahaniaeth y plentyn, neu amhariad corfforol y plentyn.

5.23 Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau rhwng y grwpiau yn lefelau cyffredinol y cosbi corfforol a adroddwyd.

5.24 Roedd tadau yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol na mamau.

5.25 Roedd rhieni o’r grwpiau ethnig Du neu Asiaidd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol o’u cymharu â rheini o’r grwpiau ethnig Gwyn.

5.26 Roedd rhieni'n fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol ar gyfer plant a gafodd eu pennu’n wrywaidd ar adeg eu geni, o’u cymharu â'r rhai a gafodd eu pennu’n fenywaidd.

5.27 Roedd rhieni 31 ac 40 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio cosb gorfforol na’r rhai 51 oed neu’n hŷn.

**Goblygiadau**

Deddf plant (diddymu amddiffyniad cosb resymol) (Cymru) 2020

5.28 Mae’r canfyddiadau’n rhoi cefnogaeth bellach i’r gwaharddiad ar y defnydd o gosbi corfforol, gan ddangos effeithiau negyddol cosbi corfforol ar ystod o ganlyniadau datblygiad plant.

5.29 Fodd bynnag, mae’r canfyddiadau hefyd yn rhoi gwybodaeth fwy cynnil yn hyn o beth, ac mae'n ymddangos bod rhai grwpiau'n ymateb yn wahanol i gosbi corfforol.

5.30 Mae’r canfyddiadau’n rhoi tystiolaeth sylfaenol bellach o lefelau cyffredinol cosbi corfforol a adroddir gan rieni yn ystod y 10 mlynedd cyn i’r Ddeddf Plant ddod i rym yng Nghymru. Mae hyn yn rhoi cyd-destun pellach ar gyfer gwerthuso’r newidiadau mewn agweddau ar ôl y newid yn y gyfraith, a fframwaith posibl ar gyfer archwilio’r newidiadau mewn lefelau cosbi corfforol ar ôl i’r ddeddf ddod i rym.

5.31 Gall y gwahaniaeth yn y lefelau cyffredinol o gosbi corfforol rhwng y grwpiau annog ymchwil mwy penodol ar ôl y ddeddf sy’n ystyried unrhyw wahaniaethau yn yr ymateb i’r newid yn y gyfraith rhwng y grwpiau penodol.

Cynlluniau rhianta Llywodraeth Cymru

5.32 Mae’r canfyddiadau’n cefnogi, yn fras, nodau cynlluniau fel Magu Plant: Rhowch amser iddo a'u ffocws ar rianta awdurdodol. Maen nhw hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod rhianta goddefgar - sy'n debyg i rianta awdurdodol o ran lefelau uchel o

gynhesrwydd - yn arwain at ganlyniadau ffafriol o'i gymharu â dulliau awdurdodus neu lawdrwm a rhai anghyfrannog.

5.33 Mae'r canfyddiadau hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gwahaniaethau cynnil yn y berthynas rhwng rhianta a’r canlyniadau i blant, a'r defnydd o’r dulliau rhianta rhwng gwahanol y grwpiau.

5.34 Roedd y berthynas rhwng rhianta awdurdodol a chanlyniadau cadarnhaol yn natblygiad y plentyn yn fwy amlwg mewn mamau. Roedd yr effeithiau'n llai amlwg ar gyfer tadau, ac yn fwy cysylltiedig gyda rhianta goddefgar. Roedd hi hefyd yn wir bod rhianta awdurdodol yn llawer mwy cyffredin ymhlith mamau na thadau. Mae’n bosibl mai’r elfen o ‘gynhesrwydd’, sy’n gyffredin i ddulliau rhianta awdurdodol a goddefgar, sydd bwysicaf ar gyfer y cysylltiad rhwng rhianta tadau a datblygiad plant, tra bod cynhesrwydd a rheolaeth yn amlwg yn achos mamau. Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio'r posibilrwydd hwn yn uniongyrchol er mwyn cynnig goblygiadau mwy penodol.

5.35 Mae’n bosibl y bydd y gwahaniaethau rhwng y grwpiau o ran pwy sy’n mabwysiadu’r dulliau rhianta ffafriol hyn, a’r dulliau awdurdodus ac anghyfrannog llai ffafriol, yn amlygu pa blant sy’n wynebu’r risg fwyaf o ganlyniadau datblygiadol negyddol.

## 6. Cyfyngiadau ac Argymhellion

6.1 Roedd ffocws yr ymchwil hwn yn gyfyngedig i ganlyniadau datblygiad plant yn 11 ac 12 oed. Er mai'r grŵp hwn sy'n wynebu'r risg fwyaf o anawsterau cronig, gallai ymchwil yn y dyfodol ddefnyddio'r data ar ddulliau rhianta a gasglwyd pan oedd y plant yn iau i gynnal archwiliad hydredol i'r gwahaniaethau yn y cysylltiadau rhwng dulliau rhianta a datblygiad plant.

6.2 Gallai'r dull hwn hefyd gyfrif am amrywiad amser posibl yn y dulliau rhianta. Er bod natur set ddata USoc yn golygu bod dulliau rhianta yn cael eu trin yn ddadansoddol fel priodweddau cymharol sefydlog, mae'n debygol bod y dulliau (neu o leiaf rai o arferion y dulliau hynny) yn newid dros amser, a gallai hyn arwain at ganlyniadau datblygiad plant gwahanol ar wahanol oedrannau. Byddai angen i ymchwil o'r fath ddefnyddio setiau data pellach neu gallai olygu gwneud ymchwil gwreiddiol.

6.3 Yn hyn o beth, gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio canlyniadau ar gyfer y glasoed ac oedolion ifanc. Gallai hyn fod yn fuddiol mewn perthynas â chosbi corfforol – gan archwilio effeithiau'r arfer hwn yn y tymor hwy – ac archwilio ymhellach y gwahaniaethau yn y canlyniadau rhwng dulliau rhianta. Byddai'n ddiddorol asesu a oedd y canlyniadau cymharol gadarnhaol ar gyfer rhianta goddefgar yn parhau ar gyfer y grwpiau oedran hŷn, gan ystyried ymchwil cynharach sy'n dangos cysylltiadau ag ymddygiad mwy peryglus yn ystod y glasoed[69].

6.4 Gallai ymchwil yn y dyfodol hefyd archwilio amrywiadau yn y dulliau rhianta, a'r cysylltiadau â chanlyniadau i blant, ar sail deinameg deuluol amrywiol. Er enghraifft, gallai'r 'clustogi' yr awgrymir mae ail riant yn ei roi rhag effeithiau cosbi corfforol ar ddatblygiad plentyn gael ei egluro'n well trwy roi cyfrif ystadegol am ymddygiad yr ail riant hwn. Gellid archwilio hyn, ynghyd â ffactorau eraill sy'n ymwneud â deinameg deuluol, trwy set ddata USoc. Byddai hyn, fel y nodwyd, yn golygu defnyddio modelau effeithiau cymysg, i gyfrif am ddibyniaeth ystadegol unigolion o fewn yr un cartref.

6.5 Er na ddaethpwyd o hyd i unrhyw effeithiau ystadegol arwyddocaol yn ymwneud â gwlad benodol, yn aml nid oedd maint y sampl yn ddigonol i archwilio'r effeithiau ar gyfer Cymru ar wahân. O ystyried bod y tirweddau gwleidyddol rhwng gwledydd yn

dod yn fwyfwy gwahanol, yn enwedig mewn perthynas â chosbi corfforol, gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio’r patrymau yng Nghymru yn fanylach. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn pan fydd gwledydd eraill yn defnyddio Cymru fel astudiaeth achos ar gyfer effeithiau gwahardd cosbi corfforol ar ddatblygiad plant.

6.6 Cyfyngwyd ar y casgliadau a wnaed ynglŷn â’r gwahaniaethau o ran effaith dulliau rhianta ar sail niwrowahaniaeth ac amhariad corfforol y plentyn oherwydd maint bach y sampl, gan mai dim ond yn ystod cam diweddaraf USoc y casglwyd y data hwn. O ystyried y gwahaniaethau posibl mewn ymatebolrwydd i rai dulliau rhianta ar sail gwahaniaethau unigol plant[70], dylai ymchwil yn y dyfodol archwilio'r ffactorau hyn yn fanylach er mwyn cyflwyno goblygiadau mwy cadarn.  Gallai hyn gynnwys naill ai defnyddio USoc unwaith y bydd data o gam 14 a thu hwnt wedi’u rhyddhau a maint y sampl yn cynyddu, defnyddio setiau data eraill, neu gasglu data gwreiddiol.

6.7 Roedd y canfyddiadau ynglŷn â’r gwahaniaethau rhwng grwpiau oedran o ran y tebygolrwydd o adrodd am gosb gorfforol yn cyferbynnu rywfaint gyda’r agweddau a adroddwyd yng ngham 7 adroddiad Beaufort. Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio ymhellach i’r gwahaniaethau posibl mewn agweddau tuag at gosbi corfforol rhwng y rhai sydd â phlant a’r rhai heb blant, a/neu bobl sydd â phlant o oedrannau penodol. Byddai hyn yn nodi pa grwpiau o blant sy’n wynebu’r risg fwyaf o gael eu cosbi'n gorfforol yn fwy cywir.

## 7. Llyfryddiaeth


Bailey, J. A., Hill, K. G., Oesterle, S. a Hawkins, J. D. 2009. Parenting practices and problem behavior across three generations: monitoring, harsh discipline, and drug use in the intergenerational transmission of externalizing behavior. Developmental psychology, 45, 1214.

Baumrind, D. 1971. Current patterns of parental authority. Developmental psychology, 4, 1.

Burke, J. D., Pardini, D. A. a Loeber, R. 2008. Reciprocal relationships between parenting behavior and disruptive psychopathology from childhood through adolescence. Journal of abnormal child psychology, 36, 679 to 692.

Chavda, K. a Nisarga, V. 2023. Single parenting: Impact on child's development. Journal of Indian Association for Child and Adolescent Mental Health, 19, 14 to 20.

Community Life Survey, 2015. Investigating the viability of moving from a face-to-face to an online/postal mode: evidence from a series of methodological studies 2012 to 2015. Community Life Survey, UK Government.

Coyl, D. D., Roggman, L. A. a Newland, L. A. 2002. Stress, maternal depression, and negative mother–infant interactions in relation to infant attachment. Infant Mental Health Journal: Official Publication of The World Association for Infant Mental Health, 23, 145 to 163.

Fatima, S., Dawood, S. a Munir, M. 2020. Parenting styles, moral identity and prosocial behaviors in adolescents. Current psychology, 1 to 9.

Goldberg, D. P., Gater, R., Sartorius, N., Ustun, T. B., Piccinelli, M., Gureje, O. a Rutter, C. 1997. The validity of two versions of the GHQ in the WHO study of mental illness in general health care. Psychological medicine, 27, 191 to 197.

Goodman, R. 1997. The Strengths and Difficulties Questionnaire: a research note. Journal of child psychology and psychiatry, 38, 581 to 586.

Gunnoe, M. L. 2013. Associations between parenting style, physical discipline, and adjustment in adolescents' reports. Psychological Reports, 112, 933 to 975.

Halpenny, A. M., Nixon, E. a Watson, D. 2010. Summary report on parents' and children's perspectives on parenting styles and discipline in Ireland.

Helimann, A. 2024. Physical punishment of children in the UK: Research Briefing. Department of Epidemiology and Public Health.

Hill, N. E. 2006. Disentangling ethnicity, socioeconomic status and parenting: Interactions, influences and meaning. Vulnerable children and youth studies, 1, 114 to 124.

Hutchison, L., Feder, M., Abar, B. a Winsler, A. 2016. Relations between parenting stress, parenting style, and child executive functioning for children with ADHD or autism. Journal of Child and Family Studies, 25, 3644 to 3656.

Kerr, D. C., Capaldi, D. M., Pears, K. C. ac Owen, L. D. 2009. A prospective three generational study of fathers' constructive parenting: Influences from family of origin, adolescent adjustment, and offspring temperament. Developmental psychology, 45, 1257.

Lansford, J. E. 2022. Annual Research Review: Cross-cultural similarities and differences in parenting. Journal of Child Psychology and Psychiatry, 63, 466 to 479.

Carter-Davies, L. and Bristow, D. 2018. Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes. Llywodraeth Cymru.

Lee, S. J., Altschul, I. a Gershoff, E. T. 2015. Wait until your father gets home? Mother's and fathers' spanking and development of child aggression. Children and youth services review, 52, 158 to 166.

Leeman, R., Patock-Peckham, J., Hoff, Rani., Krishnan-Sarin, Suchitra., Steinberg, Marvin., Rugle, Loreen., Potenza, Marc. 2014. Perceived parental permissiveness toward gambling and risky behaviors in adolescents. Journal of Behavioural Addiction, 3(2), 115 to 123.

Mac Dougall, K., Beyene, Y. a Nachtigall, R. D. 2012. ‘Inconvenient biology’: advantages and disadvantages of first-time parenting after age 40 using in vitro fertilization. Human reproduction, 27, 1058 to 1065.

Madden, V., Domoney, J., Aumayer, K., Sethna, V., Iles, J., Hubbard, I., Giannakakis, A., Psychogiou, L. a Ramchandani, P. 2015. Intergenerational transmission of parenting: Findings from a UK longitudinal study. The European Journal of Public Health, 25, 1030 to 1035.

Mcwhirter, A. C., Mcintyre, L. L., Kosty, D. B. a Stormshak, E. 2023. Parenting styles, family characteristics, and teacher-reported behavioral outcomes in kindergarten. Journal of Child and Family Studies, 32, 678 to 690.

Mesman, J. a Groeneveld, M. G. 2018. Gendered parenting in early childhood: Subtle but unmistakable if you know where to look. Child Development Perspectives, 12, 22 to 27.

Mylona, S. 2013. Managing children's behaviour, attitudes and practices: Baseline Survey 2013. Knowledge and Analytical Services, Welsh Government.

O'rourke, A. 2022. Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth: 2018 i 2020. Llywodraeth Cymru.

Public Health England, 2018. Proportion of children living with at least one parent reporting emotional distress. Public Health England.

Prince, J., Austin, J., Shewring, L., Birdsey, N., Mcinnes, K. a Roderique-Davies, G. 2014. Agweddau tuag at rhienta a disgyblu plant.

Rees, G. 2019. Dadansoddiad Llinell Uchaf ac Astudiaeth Ddichonoldeb o Iechyd Meddwl a Llesiant gan ddefnyddio Data Astudiaeth Cohort y Mileniwm. Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru.

Rosenberg, M. 1965. Graddfa hunan-barch Rosenberg (RSE). Acceptance and commitment therapy. Measures package, 61, 18.

Rudy, D. a Grusec, J. E. 2006. Authoritarian parenting in individualist and collectivist groups: Associations with maternal emotion and cognition and children's self-esteem. Journal of family psychology, 20, 68.

Ruiz-Hernández, J. A., Moral-Zafra, E., Llor-Esteban, B. a Jiménez-Barbero, J. A. 2018. Influence of parental styles and other psychosocial variables on the development of externalizing behaviors in adolescents: A systematic review. European Journal of Psychology Applied to Legal Context, 11, 9 to 21.

Sanvictores, T. a Mendez, M. D. 2021. Types of parenting styles and effects on children.

Sege, R. D., Purdue, E. L., Burstein, D., Holditch Niolon, P., Price, L. L., Chen, Y., Swedo, E. A., Piazza Hurley, T., Prasad, K. a Klika, B. 2024. Predictors of corporal punishment during the COVID-19 pandemic. Pediatric reports, 16, 300 to 312.

Shahimi, F., Rahimi, C. a Mohamadi, N. 2018. The Mental Health of adolescent girls with depressed mothers: the mediating role of the perception of parental Styles. Journal of Social Service Research.

Sharp, C. H., Karen; Brace, Lewis, Simms, Emily 2024. Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus Cymru: Arolwg Panel Chwefror 2024. Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Simons, L. G. a Conger, R. D. 2007. Linking mother–father differences in parenting to a typology of family parenting styles and adolescent outcomes. Journal of family issues, 28, 212 to 241.

Smetana, J. G. 1995. Parenting styles and conceptions of parental authority during adolescence. Child development, 299 to 316.

Stearns, P. N. 2004. Anxious parents: A history of modern childrearing in America, Nyu Press.

Timmins, C. 2023. Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg cam 6, 2022. Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

Timmins, C. 2024. Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol: Arolwg cam 7, 2023. Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth

Vafaeenejad, Z., Elyasi, F., Moosazadeh, M. a Shahhosseini, Z. 2019. Psychological factors contributing to parenting styles: A systematic review. F1000Research, 7**,** 906.

Waylen, A. a Stewart-Brown, S. 2010. Factors influencing parenting in early childhood: a prospective longitudinal study focusing on change. Child: care, health and development, 36**,** 198 to 207.

Weeland, J., Keijsers, L. a Branje, S. 2021. Introduction to the special issue: Parenting and family dynamics in times of the COVID-19 pandemic. Developmental Psychology, 57**,** 1559.

Wiggers, M. a Paas, F. 2022. Harsh physical discipline and externalizing behaviors in children: a systematic review. International journal of environmental research and public health, 19**,** 14385.

## Atodiad A: gwybodaeth am faint y sampl

A1.1 Mae'r ffigurau'n cynrychioli cyfansymiau – nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu nifer yr ymatebion i rai cwestiynau oherwydd gallai fod data ar goll. Sylwch hefyd na ofynnwyd rhai cwestiynau allweddol yn ystod pob cam (e.e., ni chafodd y rhan fwyaf o gwestiynau'r plant eu cynnwys cyn cam 3).

**Tabl A1.1: maint y sampl ar gyfer plant yn y DU a Chymru, gan gynnwys y cyfansymiau, 3 oed, 5 oed, 8 oed, a 10 ac 15 oed.**

| | Plentyn dan 10 oed | | Plentyn 3 oed | | Plentyn 5 oed | | Plentyn 8 oed | | Plentyn 10 oed | | Person ifanc 10-15 oed | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Camau | Cymru | y DU | Cymru | y DU | Cymru | y DU | Cymru | y DU | Cymru | y DU | Cymru | y DU |
| 1 | 678 | 17827 | 44 | 1196 | 38 | 1110 | 38 | 1108 | 39 | 1118 | 221 | 4899 |
| 2 | 1130 | 17138 | 84 | 1124 | 63 | 1059 | 63 | 978 | 66 | 1046 | 353 | 5018 |
| 3 | 1010 | 15523 | 72 | 1013 | 66 | 995 | 46 | 955 | 56 | 1020 | 303 | 4427 |
| 4 | 979 | 14148 | 53 | 897 | 69 | 939 | 59 | 882 | 55 | 860 | 305 | 4045 |
| 5 | 833 | 12898 | 61 | 776 | 58 | 837 | 45 | 822 | 46 | 817 | 340. | 3655 |
| 6 | 750 | 13015 | 55 | 837 | 52 | 896 | 46 | 902 | 50 | 737 | 174 | 3461 |
| 7 | 651 | 12568 | 37 | 756 | 47 | 789 | 57 | 885 | 41 | 816 | 140 | 3630 |
| 8 | 603 | 11549 | 39 | 681 | 48 | 725 | 49 | 773 | 42 | 855 | 146 | 3272 |
| 9 | 558 | 10306 | 33 | 574 | 29 | 650 | 33 | 689 | 43 | 737 | 131 | 2821 |
| 10 | 502 | 9559 | 25 | 512 | 31 | 573 | 34 | 623 | 39 | 674 | 115 | 2506 |
| 11 | 469 | 8568 | 25 | 418 | 32 | 487 | 35 | 561 | 33 | 591 | 102 | 2100 |
| 12 | 0 | 7625 | 18 | 386 | 27 | 436 | 27 | 493 | 37 | 532 | 80 | 1663 |
| 13 | 402 | 7111 | 23 | 384 | 22 | 392 | 24 | 473 | 35 | 487 | 87 | 1766 |

## Atodiad B: holiaduron USoc

### A1.2 Cwestiynau holiadur am ddulliau ac agweddau rhianta

ps1: Ymateb i anghenion y plentyn

ps2: Defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu plentyn

ps3: Ystyried dymuniadau plentyn

ps4: Nid oes rhesymau'n cael eu rhoi dros ofyn i blentyn wneud rhywbeth

ps5: Rhoi adborth ar ymddygiad plentyn

ps6: Rhoi chwip-din i blentyn pan nad yw'n ufuddhau

ps7: Annog y plentyn i drafod eu teimladau

ps8: Yn ei chael hi'n anodd disgyblu'r plentyn

ps9: Annog y plentyn i fynegi ei hun

ps10: Mynd â breintiau oddi ar blentyn heb gynnig eglurhad

ps11: Pwysleisio'r rhesymau dros reolau

ps12: Cysuro plentyn pan fydd wedi siomi neu'n ofidus

ps13: Gweiddi pan fydd y plentyn yn camymddwyn

ps14: Canmol y plentyn pan fydd yn dda

ps15: Ildio pan fydd plentyn yn codi stŵr

ps16: Gwylltio gyda'r plentyn

ps17: Bygwth cosb yn fwy na'i gweithredu

ps18: Ystyried dewisiadau plentyn wrth wneud trefniadau

ps19: Cydio yn y plentyn pan nad yw'n ufuddhau

ps20: Dweud beth yw'r gosb ond ddim yn ei gweithredu

ps21: Parchu barn y plentyn

ps22: Caniatáu i'r plentyn fynegi eu barn ar y rheolau

ps23: Dweud y drefn a beirniadu

ps24: Sbwylio plentyn

ps25: Rhoi rhesymau pam bod angen dilyn rheolau

ps26: Defnyddio bygythiadau heb gyfiawnhad

ps27: Cyfnodau hapus a chynnes gyda'r plentyn

ps28: Plentyn yn cael ei adael ar ei ben ei hun heb unrhyw eglurhad

ps29: Helpu'r plentyn i ddeall canlyniadau ei weithredoedd

ps30: Dweud y drefn pan nad yw ymddygiad y plentyn yn cyrraedd y disgwyliadau

ps31: Egluro canlyniadau ymddygiad y plentyn

ps32: Rhoi slap i'r plentyn pan fydd yn camymddwyn

Mae'r cwestiynau'n cael eu hateb ar raddfa Likert.

1. Byth
2. Nawr ac yn y man
3. Tua hanner yr amser
4. Yn aml iawn
5. Bob amser

### A1.3 Holiadur cryfderau ac anawsterau

| | Ddim yn wir | Yn wir i raddau | Yn sicr yn wir |
|---|---|---|---|
| Yn ystyriol o deimladau pobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aflonydd, yn orfywiog, yn methu ag aros yn llonydd am gyfnodau hir | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aml yn cwyno am gur pen, poen yn y stumog neu salwch | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn hapus i rannu gyda phlant eraill (danteithion, teganau, pensiliau ac ati) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn strancio neu'n gwylltio'n aml | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn eithaf unig, yn tueddu i chwarae ar ei ben/phen ei hun | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn ufudd ar y cyfan, yn gwrando ar oedolion fel arfer | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llawer o bryderon, yn aml yn ymddangos yn bryderus | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn helpu os yw rhywun wedi brifo, wedi cynhyrfu neu'n teimlo'n sâl | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aflonydd neu'n gwingo'n gyson | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae ganddo/ganddi o leiaf un ffrind da | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aml yn ymladd â phlant eraill neu'n eu bwlio | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aml yn anhapus, yn ddigalon neu'n ddagreuol | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ar y cyfan, mae plant eraill yn hoff ohono/ohoni | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'n hawdd tynnu ei sylw, mae ei feddwl/meddwl yn crwydro | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn nerfus neu'n aros yn agos mewn sefyllfaoedd newydd, yn colli hyder yn hawdd | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn garedig wrth blant iau | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aml yn dweud celwydd neu'n twyllo | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae plant eraill yn pigo arno/ami neu'n ei fwlio/bwlio | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn aml yn gwirfoddoli i helpu eraill (rhieni, athrawon, plant eraill) | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn ystyried cyn gweithredu | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn dwyn o'r cartref, yr ysgol neu rywle arall | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn cyd-dynnu'n well gydag oedolion na phlant eraill | ☐ | ☐ | ☐ |
| Llawer o ofnau, yn dychryn yn hawdd | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yn dyfalbarhau er mwyn cyflawni tasgau, yn medru canolbwyntio'n dda | ☐ | ☐ | ☐ |

## A1.4 Cwestiynau holiadur hunan-barch pobl ifanc

1. Teimlaf bod gennyf nifer o rinweddau da.
2. Rwyf yn sicr yn teimlo'n ddiwerth ar adegau.
3. Rwy'n berson hoffus.
4. Rwy'n tueddu i deimlo fel methiant.
5. Ar adegau teimlaf nad wyf werth dim byd i neb.
6. Nid wyf yn teimlo bod gennyf lawer i fod yn falch ohono.
7. Rwyf yn gallu gwneud pethau cystal â'r rhan fwyaf o bobl eraill.
8. Gallaf fel arfer ddatrys fy mhroblemau fy hun.

Mae’r cwestiynau’n cael eu hateb ar raddfa Likert. Mae rhai cwestiynau wedi'u codio o chwith fel bod sgoriau uwch yn cyfateb i lefel uwch o hunan-barch.

1. Cytuno'n gryf
2. Cytuno
3. Anghytuno
4. Anghytuno'n gryf

## A1.5 Cwestiynau am wrthdaro rhwng pobl ifanc â’u rhieni[71]

Pa mor aml ydych chi'n dadlau gyda'ch mam/tad?

Mae’r cwestiwn yn cael ei ateb ar raddfa Likert.

1. Bron bob dydd
2. Mwy nag unwaith yr wythnos
3. Llai nag unwaith yr wythnos
4. Prin iawn

## Atodiad C: sgorio’r arddulliau rhianta mwyaf blaenllaw

A1.6 Pennwyd dulliau rhianta mwyaf blaenllaw yn dilyn astudiaeth ddilysu gan Kimble (2014)[72]. Yn gyntaf, cyfrifwyd sgoriau cymedrig ar gyfer pob rhiant ym mhob un o'r 4 dull rhianta. Nesaf, cafodd pob sgôr ei safoni (trawsffurfio z) a rhoddwyd sgôr z i famau ar gyfer pob un o bedwar ffactor parhaus y dulliau rhianta. Gwnaethpwyd hyn i gyfrif am y gwahaniaethau yn nosbarthiad y sgoriau rhwng y pedwar ffactor a chaniatáu iddynt gael eu cymharu. Yna pennwyd categori dull rhianta mwyaf blaenllaw ar gyfer rhieni os oedd y sgôr ar gyfer 1 dull o leiaf .125 gwyriad safonol yn uwch na phob dull arall. Os nad oedd hyn yn wir, cawsant eu labelu’n ‘ddiwahaniaeth’.

## Atodiad Ch: amlinelliad technegol o'r dull dadansoddol

Profion a phecynnau ystadegol

A1.7 Cynhaliwyd pob dadansoddiad yn R studio, gan ddefnyddio fersiwn R 4.2.2 (2022).

A1.8 Ar gyfer pob dadansoddiad, gosodwyd y gwerth alffa (gwerth p lle casglwyd bod arwyddocâd ystadegol iddo) ar 0.05.

Dadansoddi cydberthynas

A1.9 Cynhaliwyd dadansoddiadau cychwynnol o'r gydberthynas (gweler Atodiad Dd isod) rhwng lefelau crai ar bob agwedd o'r dull rhianta/yr is-agwedd gorfodaeth corfforol, a sgoriau crai ar gyfer pob newidyn ar gyfer canlyniad datblygiad plentyn. Roedd hyn yn rhoi syniad cychwynnol o'r berthynas (angyfeiriadol) rhwng newidynnau rhianta a newidynnau canlyniadau datblygiad plant yn 11 ac 12 oed, fel ffocws ar gyfer dadansoddiadau diweddarach. Cynhaliwyd y rhain gan ddefnyddio'r pecyn R *svycor*[73]. Mae'r pecyn hwn yn caniatáu i ni ddadansoddi'r cydberthnasau mewn data cymhleth mewn arolwg trwy ymlwytho sampl wedi'i bwysoli.

A1.10 Roedd yr holl newidynnau rhianta yn rhai parhaus. Ar gyfer newidynnau datblygiad plant parhaus (allanoli, mewnoli, problemau gyda chyfoedion, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, hunan-barch), cynhaliwyd cydberthyniad parametrig mwy pwerus Pearson. Gan mai newidynnau Likert oedd y newidynnau gwrthdaro, a bod cydberthyniad Pearson yn rhagdybio bod y berthynas rhwng newidynnau yn un llinol, cynhaliwyd cydberthyniad Spearman, sy'n amharametrig.  Mae'r dull hwn yn dadansoddi'r berthynas rhwng safleoedd newidiol felly mae'n datrys yr angen am berthynas linol rhwng newidynnau.

Modelau llinol cyffredinol

A1.11 Roedd y prif ddadansoddiadau, ar gyfer y cysylltiadau rhwng rhianta a chanlyniadau datblygiad plant, a'r newidiadau yn y newidynnau rhianta dros amser, yn defnyddio modelau llinol cyffredinol. Mae'r modelau hyn yn caniatáu dadansoddi effaith un-cyfeiriad y newidynnau rhagfynegi ar newidynnau dibynnol, tra maent yn rheoli

newidynnau pellach a/neu'n archwilio a yw'r effeithiau yn cael eu hamrywio ganddynt.

A1.12 Ar gyfer astudiaeth 1 ar y berthynas rhwng rhianta a chanlyniadau datblygiad plant, roedd angen dadansoddi'r berthynas rhwng newidynnau rhagfynegi rhianta, a'r newidynnau yn y canlyniadau datblygiad plant. Ar gyfer astudiaeth 2 ar y newidiadau yn y newidynnau rhianta dros amser, roedd angen dadansoddi'r berthynas rhwng y pwynt mewn amser fel newidyn rhagfynegol, a newidynnau rhianta fel newidynnau canlyniad. Ym mhob achos, roedd rheolyddion yn eu lle ar gyfer ffactorau teuluol ac amgylchiadol allweddol, ac archwiliwyd a oedd effeithiau'n amrywio yn ôl newidynnau cymedroli allweddol. Mae'r rhestr amrywio lawn wedi'i chynnwys yn yr adran fethodoleg.

A1.13 Gosodwyd modelau gan ddefnyddio pecyn R survey[74], sy'n caniatáu dadansoddi data arolwg cymhleth wedi'i bwysoli. Mae'r pecyn hwn yn ffitio modelau sydd â phwysoliad tebygolrwydd gwrthdro a chyfeiliornad safonol sy'n seiliedig ar ddyluniad.

A1.14 Ar gyfer astudiaeth 1 ar ganlyniadau datblygiad plant, roedd canlyniadau parhaus (allanoli, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol) yn cyd-fynd â dosraniad Gaussaidd (normal). Gan mai newidyn Likert oedd gwrthdaro â rhieni, cafodd ei rannu'n ddau ar sail a oedd y plentyn yn adrodd am unrhyw wrthdaro gyda'u rhieni ai peidio. Wedi gwneud hynny, roedd y modelau'n ffitio dosraniad binomaidd (canlyniad dwy ran e.e., ie/na), a swyddogaeth gyswllt logit. Mae'r swyddogaeth gyswllt hon yn trawsnewid y raddfa debygolrwydd i fod yn ddiderfyn, fel y gellir defnyddio modelu llinol. Yn benodol, mae swyddogaeth gyswllt logit yn modelu logarithm yr ods y bydd y digwyddiad (1 yn erbyn 0 ar y newidyn canlyniad) yn digwydd. Roedd pob model ar gyfer astudiaeth 2 ar y newidiadau yn y newidynnau rhianta dros amser hefyd yn cyd-fynd â'r dosbarthiad binomaidd hwn.

A1.15 Unwaith yr oedd y modelau'n ffitio, canfuwyd y prif effeithiau sefydlog ac effeithiau rhyngweithio gan ddefnyddio'r pecyn R stats. Mae'r pecyn hwn yn cynnal profion cymhareb tebygolrwydd Rao-Scott, sy'n cymharu dau fodel – unwaith gyda'r effaith dan sylw ac unwaith hebddo – er mwyn canfod cryfder ac arwyddocâd ystadegol pob effaith. [75]

A1.16 Roedd maint yr effaith ar gyfer modelau Gaussaidd yn ystadegau eta-sgwaredig rhannol – maint yr amrywiant yn cael ei egluro gan bob newidyn rhagfynegol unigol, ar ôl rhoi cyfrif am y newidynnau eraill yn y model. Aseswyd hyn gan ddefnyddio'r pecyn R desctools[76]. Cymarebau ods oedd meintiau'r effaith ar gyfer modelau binomaidd (a drafodir isod).

A1.17 Archwiliwyd ymhellach yr effeithiau categori arwyddocaol, ac effeithiau rhyngweithio sy'n ymwneud â newidynnau categori drwy'r pecyn R emmeans[77]. Ar gyfer modelau Gaussaidd â chanlyniadau parhaus, roedd hyn yn cynnwys cymharu'r cymedrau ffiniol amcangyfrifedig (cyfartaleddau a ragfynegir ar gyfer pob lefel o bob newidyn categori, ar gyfartaledd dros lefelau'r newidynnau rhagfynegol eraill) i gynhyrchu gwahaniaethau amcangyfrifedig yn y cymedrau a'r gwerthoedd P cysylltiedig. Ar gyfer modelau binomaidd â chanlyniadau categori, roedd hyn yn cynnwys cymharu ods y log ar gyfer pob lefel y rhagfynegydd, i gynhyrchu cymarebau ods (y gwahaniaeth yn nhebygolrwydd y canlyniad penodol, rhwng dwy lefel y newidyn rhagfynegol) a'r gwerthoedd P cysylltiedig.

A1.18 Ym mhob achos, defnyddiwyd dull Tukey i unioni cymariaethau lle roedd cymariaethau lluosog. Mae hyn yn sicrhau bod cyfradd cyfeiliornad math 1 (canlyniad positif anghywir) yn cael ei reoli trwy dynhau'r cyfyngau hyder y deuir o hyd i ganlyniad ystadegol arwyddocaol o'u mewn.

A1.19 Archwiliwyd ymhellach y rhyngweithiadau arwyddocaol rhwng newidynnau rhagfynegol parhaus a chategorïol trwy ddelweddu, gan ddefnyddio'r pecynnau R sjplot a ggplot.[78][79].

Profi rhagdybiaethau

A1.20 Gwiriwyd y rhagdybiaeth o gyflinelledd luosog (y cydberthynas rhwng newidynnau rhagfynegol) ar gyfer modelau Gaussaidd a binomaidd. Gwnaed hyn trwy gyfrifo ffactorau chwyddiant amrywiant (gwerth sy'n dynodi cryfder y cydberthnas rhwng rhagfynegydd penodol a rhagfynegwyr eraill yn y model) ar gyfer pob newidyn rhagfynegol gan ddefnyddio'r pecyn R car.[80] Ystyriwyd bod gwerthoedd dros 5 yn

broblemus, a chafodd rhai newidynnau (e.e., lefelau cyflogaeth, a oedd yn cydberthyn yn agos i'r grŵp incwm) eu tynnu o'r modelau terfynol.

A1.21 Cynhaliwyd rhai gwiriadau pellach ar gyfer modelau Gaussaidd. Roedd hyn yn cynnwys profion llinoledd, trwy blotiau gwasgariad o newidynnau rhagfynegi a newidynnau canlyniad. Gwiriwyd a oedd amrywiadau yr un fath hefyd, trwy blotio gwerth gweddilliol y model yn erbyn gwerthoedd ffitiedig y model. Gwiriwyd normaledd gweddilliol trwy histogramau. Cynhyrchwyd y plotiau hyn gan ddefnyddio offerynnau plotio yn *base* R.

## Atodiad D: disgrifiadau ategol ar gyfer canlyniadau datblygiad plant yn 5 oed, 8 oed, ac 11 oed 12 oed, ledled y DU ac yng Nghymru.

## Tabl A1.2: Canlyniadau datblygiad plant yn ôl oedran a rhanbarth, ar gyfartaledd dros 2011 a 2022

| **Canlyniad i Blant** | | **y DU** | | | **Cymru** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **5 oed** | **8 oed** | **11-12 oed** | **5 oed** | **8 oed** | **11-12 oed** |
| **Mewnoli** | Uchel iawn | 2.8% | 5.3% | 6.8% | 2.0% | 4.8% | 4.2% |
| | Uchel | 5.8% | 7.7% | 7.4% | 6.1% | 5.4% | 7.6% |
| | Rhywfaint yn uwch | 25.0% | 26.1% | 31.0% | 26.3% | 30.1% | 24.9% |
| | Yn agos at y lefelau cyfartalog | 66.4% | 60.8% | 54.8% | 65.5% | 59.7% | 63.2% |
| **Allanoli** | Uchel iawn | 3.7% | 3.7% | 5.7% | 3.8% | 3.2% | 4.6% |
| | Uchel | 8.2% | 8.2% | 6.9% | 6.9% | 10.0% | 7.5% |
| | Rhywfaint yn uwch | 16.9% | 16.4% | 39.8% | 23.2% | 18.4% | 36.7% |
| | Yn agos at y lefelau cyfartalog | 71.2% | 71.7% | 47.6% | 66.1% | 68.4% | 51.2% |
| **Problemau gyda Chyfoedion** | Uchel iawn | 5.4% | 8.0% | 8.1% | 4.1% | 7.0% | 8.4% |
| | Uchel | 4.7% | 6.0% | 7.5% | 5.2% | 4.0% | 5.7% |
| | Rhywfaint yn uwch | 9.8% | 8.6% | 13.3% | 9.8% | 9.4% | 10.4% |
| | Yn agos at y lefelau cyfartalog | 80.1% | 77.4% | 71.1% | 80.9% | 79.7% | 75.5% |
| **Cymdeithasol-fuddiol** | Isel iawn | 9.6% | 9.3% | 4.3% | 9.1% | 8.2% | 6.0% |
| | Isel | 8.6% | 6.9% | 6.4% | 9.4% | 8.6% | 6.5% |
| | Wedi gostwng ychydig | 10.1% | 9.1% | 10.7% | 15.1% | 9.1% | 12.1% |
| | Yn agos at y lefelau cyfartalog | 71.7% | 74.7% | 78.6% | 66.4% | 74.0% | 75.4% |
| **Hunan-barch** | Isel | | | 8.32% | | | 3.86% |
| | Normal | | | 91.68% | | | 96.14% |
| **Gwrthdaro â'r Fam** | Bron bob dydd | | | 9.64% | | | 9.05% |
| | Mwy nag unwaith yr wythnos | | | 15.80% | | | 13.02% |

Sylwer.Maint y sampl ar gyfer hunan-barch = 4,539 ar gyfer y DU; 220 ar gyfer Cymru.
Maint y sampl ar gyfer newidynnau gwrthdaro = 5,979 ar gyfer y DU; 315 ar gyfer Cymru.
Nodir maint y sampl ar gyfer y canlyniadau eraill yn Ffigurau 4.1 a 4.5.

## Atodiad Dd: canfyddiadau ategol ar gyfer y berthynas rhwng rhianta a datblygiad plant yn 11 ac 12 oed

A1.22 Mae Tablau 5.3 a 5.4 yn amlinellu'r cydberthynas rhwng pob dull rhianta unigol, a'r defnydd o gosb gorfforol, gyda chanlyniadau datblygiad plant yn 11 ac 12 oed. Mae'r canfyddiadau'n cael eu grwpio yn ôl rhiant (mam neu dad) a rhanbarth (Cymru yn unig neu'r DU). Mae'r perthnasoedd ystadegol arwyddocaol wedi'u hamlygu (gwyrdd tywyll ar gyfer y rhai sydd â llai na 5 y cant o siawns o ddigwydd ar hap, gwyrdd golau ar gyfer y rhai sydd â llai na 10 y cant o siawns o ddigwydd ar hap).

**Tabl A1.3: y cydberthynas rhwng dulliau rhianta, cosbi corfforol, a chanlyniadau datblygiad plant 11 ac 12 oed yng Nghymru**

| Rhianta | Rhiant | Canlyniadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mewnoli | Allanoli | Cyfoedion | Cymdeithasol-fuddiol | Gwrthdaro â'r Fam | Gwrthdaro â'r Tad | Hunan-barch |
| Awdurdodus (neu Llawdrwm) | Mam | 0.07 | 0.21 | 0.09 | -0.08 | 0.19 | 0.19 | -0.17 |
| | Tad | 0.14 | 0.12 | 0.13 | 0.06 | 0.22 | 0.25 | -0.17 |
| Rhianta Goddefgar/llac | Mam | -0.05 | -0.15 | 0.05 | 0.16 | 0.03 | -0.20 | 0.04 |
| | Tad | -0.08 | -0.24 | -<0.01 | 0.15 | -0.15 | -0.29 | 0.25 |
| Anghyfrannog | Mam | 0.06 | 0.07 | 0.08 | -0.15 | 0.06 | 0.17 | -0.16 |
| | Tad | 0.12 | 0.04 | -0.01 | 0.04 | 0.30 | 0.11 | -0.16 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhianta ag awdurdod/Awdurdodol | Mam | 0.11 | 0.07 | 0.09 | 0.14 | 0.14 | -0.11 | -0.03 |
| | Tad | -0.03 | -0.05 | -0.05 | 0.12 | -0.18 | -0.12 | 0.19 |
| Cosb Gorfforol | Mam | 0.15 | 0.25 | 0.09 | -0.25 | 0.09 | 0.23 | -0.18 |
| | Tad | 0.14 | 0.11 | -<0.01 | 0.13 | 0.18 | 0.21 | -0.09 |

Sylwer.Cydberthnasau â newidynnau gwrthdaro = Spearman. Pob cydberthynas arall = Pearson. Maint y sampl = 80 ar gyfer tadau; 98 ar gyfer mamau.

A1.23 Roedd cydberthnasau ar gyfer Cymru yn dangos perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng defnydd mamau o gosb gorfforol a lefelau uwch o broblemau allanoli yn 11 ac 12 oed. Roedd cydberthynas hefyd rhwng cosb gorfforol gan famau ac ymddygiad cymdeithasol-fuddiol is, a lefelau uwch o wrthdaro â thadau. Canolig oedd maint yr effaith ar gyfer y cydberthynasau hyn.

A1.24 Roedd cysylltiad rhwng rhianta goddefgar/llac gan dadau a lefelau is o broblemau allanoli i blant, a lefelau is o wrthdaro â thadau, gyda maint yr effaith yn ganolig.

A1.25 Roedd cysylltiad rhwng tadau mwy anghyfrannog a lefelau uwch o wrthdaro rhwng plant a'u mamau. Roedd cysylltiad rhwng tadau mwy awdurdodus/llawdrwm a lefelau uwch o wrthdaro â thadau. Roedd maint effaith y rhain yn ganolig.

A1.26 Roedd ambell i gydberthynas hefyd yn agos at fod yn arwyddocaol (llai na 10 y cant o debygolrwydd bod y cydberthynas wedi digwydd ar hap). Roedd cysylltiad bach rhwng cosb gorfforol gan famau a thadau a phroblemau mewnoli. Yn yr un modd, roedd cysylltiad rhwng sgoriau awdurdodus uwch ar gyfer mamau a mwy o broblemau allanoli a lefelau uwch o wrthdaro â thadau. Yn olaf, dangoswyd bod cysylltiad rhwng mamau mwy goddefgar a lefelau uwch o hunan-barch, ac roedd y cysylltiad hwn yn agos at fod yn arwyddocaol.

**Tabl A1.4: y cydberthynas rhwng dulliau rhianta, cosbi corfforol, a chanlyniadau datblygiad plant 11 ac 12 oed yn y DU**

| Rhianta | Rhiant | Canlyniadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Mewnoli | Allanoli | Cyfoedion | Cymdeithasol-fuddiol | Gwrthdaro â'r Fam | Gwrthdaro â'r Tad | Hunan-barch |
| Awdurdodus (neu Llawdrwm) | Mam | -0.01 | 0.15 | -0.01 | -0.06 | 0.21 | 0.18 | -0.06 |
| | Tad | <0.01 | 0.16 | -<0.01 | -0.03 | 0.16 | 0.15 | -0.04 |
| Rhianta Goddefgar/ Llac | Mam | -0.02 | -0.12 | -0.02 | 0.09 | -0.15 | -0.11 | 0.04 |
| | Tad | -0.03 | -0.14 | -<0.01 | 0.09 | -0.13 | -0.11 | 0.04 |
| Anghyfrannog | Mam | 0.04 | 0.15 | 0.03 | -0.10 | 0.18 | 0.14 | -0.07 |
| | Tad | 0.06 | 0.15 | 0.05 | -0.07 | 0.14 | 0.12 | -0.05 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdodol | Mam | <0.01 | -0.05 | -0.01 | 0.07 | -0.09 | -0.07 | 0.01 |
| | Tad | -0.03 | -0.04 | <0.01 | 0.08 | -0.06 | -0.06 | 0.04 |
| Cosb Gorfforol | Mam | -0.02 | 0.11 | 0.02 | -0.06 | 0.16 | 0.16 | -0.05 |
| | Tad | 0.01 | 0.12 | 0.02 | -0.03 | 0.15 | 0.12 | -0.01 |

Sylwer.Cydberthnasau â newidynnau gwrthdaro = Spearman. Pob cydberthynas arall = Pearson. Maint y sampl = 1,787 ar gyfer tadau; 1,963 ar gyfer mamau.

A1.27 Roedd sampl y DU yn cefnogi'r patrymau a welwyd yn sampl Cymru i raddau helaeth ond yn datgelu ystod ehangach o berthynas ystadegol arwyddocaol rhwng rhianta, ar gyfer mamau a thadau, a chanlyniadau datblygiad plant. O ran y canlyniadau i blant, problemau allanoli, ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, a gwrthdaro â mamau a thadau oedd yn dangos y berthynas fwyaf cyson â'r newidynnau rhianta. Fodd bynnag, yn gyffredinol roedd maint yr effaith yn llai, yn enwedig ar gyfer ymddygiad cymdeithasol-fuddiol.

## Adran gyfeirio

[1] Cyflwynwyd deddf plant (diddymu amddiffyniad cosb resymol) (Cymru) 2020 i Senedd Cymru ym mis Mawrth 2019 a chafodd y cydsyniad brenhinol ar 20 Mawrth 2020. daeth adran 1 (diddymu amddiffyniad cosb resymol) i rym ar 21 Mawrth 2022 - deddf plant (diddymu amddiffyniad cosb resymol) (Cymru) 2020 .

[2] Mae magu plant. Rhowch amser iddo wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth ymarferol ynglŷn â rhianta cadarnhaol i rieni a rhai sy'n rhoi gofal ac yn gyfrifol am fagu plant hyd at 18 oed. Gweler magu plant. Rhowch amser iddo

[3] Pregnancy and early childhood (Understanding Society)

[4] Main survey (Understanding Society)

[5] Current patterns of parental authority; Baumrind (1971)

[6] Am adolygiad o'r dystiolaeth hon, gweler: types of parenting styles and effects on children

[7] Agweddau tuag at rhianta a disgyblu plant

[8] Arolwg ar agweddau tuag at reoli ymddygiad plant: arolwg gwaelodlin 2013 (Saesneg yn unig)

[9] Associations between parenting style, physical discipline, and adjustment in adolescents' reports

[10] Parental physical punishment: child outcomes and attitudes | Public Policy Institute for Wales (Saesneg yn unig)

[11] Dadansoddiad llinell uchaf ac astudiaeth ddichonoldeb o iechyd meddwl a llesiant gan ddefnyddio data astudiaeth cohort y mileniwm

[12] Stress, maternal depression, and negative mother–infant interactions in relation to infant attachment

[13] Amser i siarad iechyd cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

[14] Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg ton 6, Tachwedd 2022

[15] Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg cam 7, Tachwedd 2023

[16] Cross-cultural similarities and differences in parenting

[17] The mental health of adolescent girls with depressed mothers: the mediating role of the perception of parental styles

[18] Ystadegau cydraddoldeb ac amrywiaeth: 2018 i 2020

[19] Children living with parents in emotional distress: 2010 to 2016 (Public Health England)

[20] Intergenerational transmission of parenting: findings from a UK longitudinal study

[21] Parenting practices and problem behavior across three generations: monitoring, harsh discipline, and drug use in the intergenerational transmission of externalizing behavior

[22] A prospective three generational study of fathers' constructive parenting: influences from family of origin, adolescent adjustment, and offspring temperament

[23] Authoritarian parenting in individualist and collectivist groups: associations with maternal emotion and cognition and children's self-esteem

[24] Parenting styles and discipline: parents' perspectives

[25] Anxious parents : a history of modern childrearing in America

[26] Factors influencing parenting in early childhood: a prospective longitudinal study focusing on change

[27] Disentangling ethnicity, socioeconomic status and parenting: Interactions, influences and meaning

[28] Physical punishment of children in the UK (Department of Epidemiology and Public Health)
[29] Gwnaed hyn er mwyn cael cydbwysedd rhwng gwneud y mwyaf o faint y sampl er mwyn cael canlyniadau cadarn, a sicrhau nad oedd y sampl cyfun yn rhychwantu cyfnod rhy eang.
[30] The Strengths and difficulties questionnaire: a research note
[31] Rosenberg self-esteem scale
[32] Cymerwyd y newidynnau hyn o ffeiliau data child, indresp, a hhresp. Gweler datafiles (Understanding Society)
[33] The validity of two versions of the GHQ in the WHO study of mental illness in general health care
[34] Mae incwm canolrifol yn cynrychioli gwerth canol yr incwm a gofnodwyd ar gyfer pob aelwyd yn y DU.
[35] Wedi'u grwpio fel hyn oherwydd niferoedd bychain mewn nifer o'r grwpiau unigol, a ffurfiwyd y grwpiau ar sail dosbarthiadau cyfrifiad SYG. Gweler ethnicity and race.
[36] Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ond mae'n cynnwys y rhai a gasglwyd gan USoc.
[37] Nid yw'r iaith hon yn adlewyrchu'r hyn a ddefnyddir yn USoc. Yn 2002, mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y model cymdeithasol a anabledd (Anabledd Cymru). Mae'r model hwn yn amlinellu ffordd wahanol o ystyried anabledd – yn lle diffinio pobl fel pobl anabl yn ôl eu hamhariad (fel y gwna'r model meddygol o anabledd), ystyrir bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau ffisegol, agweddol a sefydliadol sy'n cael eu creu gan gymdeithas.
Mae rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir yn USoc wedi'i seilio ar y model meddygol o anabledd sy'n diffinio pobl fel pobl anabl yn ôl eu hamhariad. O'r herwydd, mae'r data a ddadansoddwyd mewn perthynas ag anabledd yn adlewyrchu'r model meddygol o anabledd. Fodd bynnag, lle bo'n bosibl, rydym wedi defnyddio iaith sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd.
[38] Weighting guidance (Understanding Society)
[39] Ceir rhagor o wybodaeth am ddull rhianta 'mwyaf blaenllaw' yn Atodiad C
[40] Er bod y sgoriau wedi'u safoni i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddehongli, roedd gwahaniaethau yn y dull o gasglu data rhwng plant 5 ac 8 oed (adroddiad rhiant) a phlant 11 ac 12 oed (hunan-gofnod). At hynny, mae ffigurau'n cynrychioli amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer pob grŵp oedran ar wahân, ar gyfartaledd ar draws yr amserlen a nodwyd, felly gall grwpiau oedran gwahanol gynnwys rhai o'r un unigolion. Yn unol â hynny, ni ddylid cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol y tu hwnt i'w gwerth disgrifiadol.
[41] Fel y nodwyd, dim ond 1 plentyn i bob cartref oedd yn cael ei gynnwys ym mhob model, er mwyn osgoi problemau gydag annibyniaeth ystadegol. Gallai ymchwil yn y dyfodol archwilio'r effeithiau yn y cartref yn fwy penodol trwy fodelau effeithiau cymysg.
[42] Influence of parental styles and other psychosocial variables on the development of externalizing behaviors in adolescents: a systematic review
[43] Linking mother–father differences in parenting to a typology of family parenting styles and adolescent outcomes
[44] Parenting styles, moral identity and prosocial behaviors in adolescents
[45] Differential effects of mother's and father's parenting on prosocial and antisocial behavior: child sex moderating
[46] Parenting styles and conceptions of parental authority during adolescence
[47] Nid oedd digon o dadau sengl i gadarnhau a oedd y cysylltiad rhwng dulliau rhianta a chanlyniadau i blant yn amrywio rhwng tadau sengl a thadau nad ydynt yn dadau sengl.
[48] Maint y sampl = 1,998 ar gyfer mamau; 1,401 ar gyfer tadau.
[49] Wait until your father gets home? Mother's and fathers' spanking and development of child aggression
[50] Fathers and families: risk and resilience. An Introduction
[51] Harsh physical discipline and externalizing behaviors in children: a systematic review

[52] Single parenting: impact on child's development
[53] Introduction to the special issue: parenting and family dynamics in times of the covid-19 pandemic
[54] Parenting styles, family characteristics, and teacher-reported behavioral outcomes in kindergarten
[55] Psychological factors contributing to parenting styles: a systematic review
[56] Gendered parenting in early childhood: subtle but unmistakable if you know where to look
[57] Reciprocal relationships between parenting behavior and disruptive psychopathology from childhood through adolescence
[58] 'Inconvenient biology:' advantages and disadvantages of first-time parenting after age 40 using in vitro fertilization
[59] Roedd maint y samplau'n fach ar gyfer niwrowahaniaeth plant ac amhariad corfforol plant oherwydd mai dim ond yng ngham diweddaraf USoc y casglwyd y data. Dylid bod yn ofalus wrth drafod y canfyddiad hwn.
[60] Predictors of corporal punishment during the covid-19 pandemic
[61] Physical punishment of children in the UK (Department of Epidemiology and Public Health)
[62] Amser i siarad iechyd cyhoeddus (Iechyd Cyhoeddus Cymru)

[63] Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg cam 7, Tachwedd 2023
[64] Gendered parenting in early childhood: subtle but unmistakable if you know where to look
[65] Reciprocal relationships between parenting behavior and disruptive psychopathology from childhood through adolescence
[66] 'Inconvenient biology:' advantages and disadvantages of first-time parenting after age 40 using in vitro fertilization
[67] Agweddau'r cyhoedd tuag at gosbi plant yn gorfforol: arolwg cam 7, Tachwedd 2023
[68] Yn yr un modd â'r dulliau rhianta, roedd maint y samplau'n fach ar gyfer niwrowahaniaeth plant ac amhariad corfforol, felly dylid eu trin yn ofalus.
[69] Perceived parental permissiveness toward gambling and risky behaviors in adolescents
[70] Relations between parenting stress, parenting style, and child executive functioning for children with ADHD or autism
[71] Gellir dod o hyd i newidynnau rheoli a chymedroli yn ffeiliau child, indresp, a hhresp yn datafiles - Understanding Society
[72] The parenting styles and dimensions questionnaire: a reconceptualisation and validation
[73] svycor: calculate Pearson correlations with complex survey data in jtools: analysis and presentation of social scientific data (rdrr.io)
[74] pecyn survey RDocumentation
[75] pecyn stats RDocumentation
[76] pecyn DescTools RDocumentation
[77] pecyn emmeans RDocumentation
[78] pecyn sjPlot RDocumentation
[79] pecyn ggplot2 RDocumentation
[80] pecyn car RDocumentation